*This document is available in English*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

**Cynhelir cyfarfod o AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU DDYDD LLUN 20 RHAGFYR 2021 yn rhithiol drwy Zoom.**
**Dechreuir y cyfarfod am 9.30 y bore.**

Yn gywir

Gareth Owens
Clerc

**AGENDA**

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datganiadau o Ddiddordeb**

3. **Rhybudd o Faterion Brys**
   Rhybudd o eitemau y dylid ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.

4. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 20 Medi 2021**

5. **Materion yn Codi**

6. **Adroddiad y Cadeirydd (ar lafar)**

7. **Alldro Amcanol 2021/22**

8. **Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2022/25 a Chyllideb 2022/23**

9. **Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân – Gweithdrefn Fewnol ar gyfer Datrys Anghydfodau**

10. **Gwahaniaethu ar sail Oedran yng Nghynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân**

11. **Polisi Disgresiynol Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**

12. **Adolygu Cyfansoddiad yr Awdurdod Tân ac Achub**

13. **Cofrestr datgan cysylltiadau a Thrafodion Partïon Cysylltiedig (adroddiad ar lafar)**

## 14. Dyddiadau Cyfarfodydd 2022

## 15. Materion Brys

Ystyried unrhyw eitem y penderfyna'r Cadeirydd sy'n fater brys (o dan Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972) y nodwyd ei gynnwys o dan eitem 2 uchod.

## RHAN II

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 bod y Wasg a'r Cyhoedd i'w gwahardd o'r cyfarfod tra'n ystyried yr eitem(au) busnes canlynol am ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn cael ei datgelu iddynt.

## 16. Cadarnhau penodiadau i'r swyddi Prif Swyddogion (adroddiad ar lafar)

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **20 Rhagfyr 2021** |
| Swyddog Arweiniol | **Ken Finch - Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen Howard, Pennaeth Cyllid (01745 535286)** |
| Pwnc | **Alldro Amcanol 2021/22** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno sefyllfa gwariant refeniw a chyfalaf rhagamcanol 2021/22, fel yr oedd ar 31 Hydref 2021.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Yn ei gyfarfod ar 9 Tachwedd 2020, roedd yr Awdurdod wedi cymeradwyo cyllideb refeniw o £37.07m ar gyfer 2021/22. Sefyllfa'r alldro a ragwelir o hyd yw y bydd yr Awdurdod yn adennill y costau mewn perthynas â'r gyllideb hon.

3 Roedd yr Awdurdod wedi cymeradwyo cyllideb gyfalaf o £3.08m ar gyfer 2021/22 ar 9 Tachwedd 2020. Mae'r rhaglen gyfalaf yn dal i gael ei hadolygu, oherwydd cyfyngiadau parhaus Covid 19. Cytunwyd ar gynllun cyfalaf diweddaredig o £2.985m yn y cyfarfod ar 15 Mawrth 2021.

**ARGYMHELLION**

4 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi'r rhagamcanion alldro refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 fel y nodir yn yr adroddiad; a
(ii) cymeradwyo'r cais i ail-gysoni'r gyllideb.

**SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

5 Nid yw'r aelodau wedi ystyried yr adroddiad hwn o'r blaen.

**CEFNDIR**


6 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am sefyllfa alldro gwariant refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

## GWYBODAETH

## CYLLIDEB REFENIW

7 Cytunwyd ar gyllideb o £37.074m ar gyfer 2021/22 yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 9 Tachwedd 2020. Yn dilyn gwaith cynllunio pellach, cadarnhawyd y gofyniad cyllidebol cyffredinol yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 15 Mawrth 2021, gan fod nifer o ddiwygiadau wedi cael eu gwneud o fewn penawdau'r gyllideb. Mae'r gyllideb refeniw yn dal i gael ei hadolygu drwy gydol y flwyddyn ariannol, ac mae paragraff 30 yn darparu gwybodaeth am y sefyllfa bresennol.

8 Mae'r prif benawdau gwariant wedi'u nodi isod, a chostau staff yw mwy na 72% o'r gwariant net.




9 Mae'r gyllideb yn cael ei gosod ar sail nifer gymeradwyedig o staff, sy'n cynnwys 18 o brentisiaid diffoddwyr tân newydd a ddechreuodd yn Ebrill a Mehefin 2021.

10 Roedd y broses o osod y gyllideb yn cynnwys rhagdybiaeth mai 2% fyddai'r dyfarniadau cyflog i'r holl staff. Cytunwyd ar ddyfarniad cyflog o 1.5% ar gyfer swyddi Prif Swyddogion a diffoddwyr tân. Ni chytunwyd eto ar y dyfarniad cyflog llywodraeth leol, ond y cynnig presennol yw 1.75%. Y sefyllfa ddiweddaraf yw bod undebau sy'n cynrychioli staff llywodraeth leol yn holi barn yr aelodau ynghylch gweithredu diwydiannol.


11 Mae'r cyllidebau nad ydynt yn gyflogau yn adlewyrchu'r pwysau costau anochel sy'n cael eu teimlo mewn perthynas â chostau cyfleustodau, gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni, costau tanwydd a chostau TGCh, gan gynnwys trwyddedau meddalwedd a chontractau cynnal a chadw.

12 Tra bo'r rhan fwyaf o'r gwariant yn cael ei ariannu o ardoll yr awdurdodau cyfansoddol, daw incwm gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithgareddau sy'n cael arian grant ac ad-daliadau gan gyrff eraill am ddefnyddio ein safleoedd. Mae manylion y gyllideb incwm ar gael ym mharagraff 23.

13 Mae'r costau ariannu cyfalaf yn cynnwys costau benthyciadau a thaliadau refeniw am ddefnyddio asedau cyfalaf. Ni ragwelir cynnydd yng nghyfraddau llog Banc Lloegr yn ystod 2021/22, ac mae hyn wedi'i ystyried wrth wneud y rhagolwg.

**ALLDRO REFENIW**

14 Mae'r adroddiad yn rhagamcan y sefyllfa fantoledig gyffredinol, gan gynnwys trosglwyddiadau i gronfeydd a glustnodwyd. Mae'r dadansoddiad o'r gwariant wedi'i nodi isod, ac mae'n dangos y rhagwelir, o gymharu â'r gyllideb, y bydd costau gweithwyr 3% yn is na'r gyllideb, tra bo pwysau parhaus mewn perthynas â chostau cyflenwadau a gwasanaethau a safleoedd.




15 Mae tanwariannau o fewn y gyllideb gyflogau yn gwrthbwyso'r costau uwch o fewn cyflenwadau a gwasanaethau.

16 Bydd unrhyw gynnydd yn y cronfeydd a glustnodwyd yn ariannu heriau'r dyfodol a blaenoriaethau'r Gwasanaeth.

17 Mae rhagor o fanylion am y sefyllfa alldro wedi'u darparu yn Atodiad 1 a'r crynodeb isod.

## Costau Gweithwyr

18 Mae costau gweithwyr yn elfen arwyddocaol o'r gyllideb ac maent yn ymwneud â chyflogau, costau pensiwn, cost recriwtio a hyfforddi a gwasanaethau gweithwyr fel ffisiotherapi a gwasanaethau iechyd galwedigaethol.

19 Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n recriwtio i nifer o swyddi a disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r swyddi'n cael eu llenwi yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Er bod y Gwasanaeth yn cymryd camau i gynyddu nifer y diffoddwyr tân ar gael yn ôl y galw, ni fydd yn sicrhau'r cynnydd arfaethedig o 30 o ddiffoddwyr tân ar gael yn ôl y galw cyn diwedd y flwyddyn.

20 Caiff y gyllideb ar gyfer swyddi gwag ei dal yn ganolog a bydd yn cael ei dyrannu fel y caiff swyddi eu llenwi. Mae cyllideb o £0.04m ar gael hefyd i ariannu'r staff sydd mewn swyddi datblygiadol ar hyn o bryd ac y disgwylir iddynt gael eu hasesu'n gymwys yn y dyfodol agos.

21 Caiff unrhyw danwariant o'r swyddi gwag ei ddefnyddio, yn y lle cyntaf, i wrthbwyso'r pwysau o fewn y cyllidebau nad ydynt yn gyflogau.

### Costau nad ydynt yn Gyflogau

22 Mae pwysau nad ydynt yn gyflogau o fewn y gyllideb yn ymwneud â chostau uwch i drwyddedau cyfrifiadurol a gwaith cynnal a chadw, prosiectau trawsffurfiadol sy'n cynnwys gweithio ystwyth, trwsio a chynnal a chadw adeiladau, a lefelau uwch o gyfarpar amddiffyn personol o ganlyniad i bandemig Covid 19 sy'n mynd ymlaen.

23 Mae deiliaid cyllidebau yn cynnal adolygiad o wariant nad yw'n gyflogau er mwyn sicrhau bod y rhagamcanion yn parhau i fod yn rhesymol.

## Incwm

24 Yn ogystal ag ardoll yr awdurdodau cyfansoddol, mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys yr incwm a ddisgwylir ar gyfer ffioedd a thaliadau a grantiau.


25 Mae'r ffioedd a thaliadau'n ymwneud gan mwyaf ag ad-daliadau am adeiladau sy'n cael eu rhannu â chyrff eraill.

| | **Cyllideb £000** | **Rhagamcaniad £000** | **Amrywiad £000** |
|---|---|---|---|
| Grantiau | 2,187 | 2,187 | 0 |
| Ffioedd a thaliadau | 298 | 368 | 70 |
| **Cyfanswm** | **2,485** | **2,555** | **70** |

26 Mae'r incwm ychwanegol yn ymwneud gan mwyaf â chyllid llywodraeth ychwanegol ar gyfer hyfforddi prentisiaid.

**Arian Grant Refeniw**

27 Cyfanswm y dyraniadau arian grant yn 2021/22 yw £2.187m (2020/21: £2.209m). Ceir dadansoddiad isod o'r arian grant ar gyfer 2021/22. Caiff yr holl grantiau eu monitro'n ofalus drwy gydol y flwyddyn ariannol i ganfod unrhyw amrywiadau ac er mwyn gallu cymryd camau i gywiro pethau.




**DEFNYDDIO CRONFEYDD A GLUSTNODWYD**

28 Nod cronfeydd ariannol yr awdurdod yw darparu cyllid i'w fuddsoddi mewn gweithgareddau yn y dyfodol ac i fod yn rhwyd diogelwch rhag ofn y bydd heriau ariannol tymor byr yn deillio o alwadau gweithgarwch neu bwysau na ragwelwyd.

29 Yn 2020/21, clustnodwyd cronfeydd i ariannu costau a ddylai fod wedi digwydd yn 2020/21 ond a gafodd eu gohirio oherwydd pandemig Covid 19. Mae problemau gyda chadwyni cyflenwi wedi golygu erbyn hyn fod ambell waith wedi ei ohirio yn 2021/22, felly unwaith y gwyddom holl effaith hyn mae'n bosibl y bydd angen neilltuo'r gost sydd wedi'i chynnwys yn yr alldro ar hyn o bryd er mwyn sicrhau bod cyllid ar gael y flwyddyn nesaf.

30 Mae'r alldro amcanol yn rhagdybio y bydd y cronfeydd wrth gefn yn cynyddu £0.11m. Caiff y defnydd o gronfeydd ei gadw dan adolygiad fel rhan o'r broses o fonitro'r gyllideb.

**CYLLIDEB REFENIW A AILGYSONWYD**

31 Ers yr adroddiad diwethaf, ni fu raid ail-gysoni'r gyllideb. Caiff hyn ei gadw dan adolygiad. Rhagwelir y bydd angen mwy o waith mireinio yn ystod y flwyddyn ariannol i adlewyrchu'r heriau parhaus.

**RHAGLEN GYFALAF**

32 Roedd yr Awdurdod wedi cymeradwyo rhaglen gyfalaf o £2.985m ym mis Mawrth 2021. Oherwydd pandemig Covid 19, bu'n rhaid adolygu a diwygio'r rhaglen gyfalaf i adlewyrchu prosiectau y gellir eu cyflawni yn ystod y flwyddyn.

33 Adolygwyd yr holl waith adeiladu, ac mae costau'n ymwneud â mân waith anwellhaol wedi'u tynnu o'r gyllideb a byddant yn cael eu hariannu o'r refeniw a'r cronfeydd wrth gefn.

34 £2.385m yw'r cynllun cyfalaf diwygiedig.

35 £1.223m yw'r alldro amcanol ar gyfer y rhaglen gyfalaf.

| | | **Cynllun Cyfalaf @ Mawrth 2021 £000** | **Cynllun Cyfalaf @ 31 Gorffennaf 2021 £000** | **Rhagamcan £000** | **Cario drosodd £000** |
|---|---|---|---|---|---|
| Fflyd | Cerbydau a pheiriannau newydd yn lle hen rai | 2,028 | 2,099 | 1.176 | 922 |
| Cyfleusterau | Uwchraddio adeiladau | 790 | 120 | 0 | 120 |
| Technoleg Gwybodaeth | Uwchraddio systemau, a gwaith cysylltiol | 167 | 167 | 167 | 0 |
| | **Cyfanswm** | **2,985** | **2,385** | **1,223** | **1,042** |

36 Mae cario cyllid drosodd mewn perthynas â cherbydau wedi digwydd oherwydd yr amser adeiladu sylweddol ar gyfer peiriannau tân. Yn ôl yr wybodaeth ddiweddaraf gan y cyflenwr, rhagwelir na fydd y rhain yn weithredol tan fis Mai 2022 felly nid yw'r taliad cam olaf yn ddyledus tan fis Mai 2022.

37 Mae cario cyllid Cyfleusterau drosodd yn ymwneud â dau dŵr hyfforddi. Nid yw'r fanyleb dylunio wedi'i chwblhau'n derfynol eto felly mae'n annhebygol y caiff y gwaith hwn ei gwblhau erbyn Mawrth 2022. Yn ôl yr amcangyfrifon cychwynnol, mae'r costau wedi codi i £0.160m oherwydd newidiadau i'r dyluniad felly caiff cyllid ychwanegol ei ddyrannu fel rhan o gynllun cyfalaf 2022/23.

38 Dyma gyllid y cynllun cyfalaf:

| **Cyllid** | **Swm £000** |
|---|---:|
| Benthyca | 907 |
| Cronfeydd a glustnodwyd | 316 |
| **Cyfanswm** | **1,223** |

**ARIANNU CYFALAF**

39 Mae'r gyllideb ariannu cyfalaf yn neilltuo cyllid refeniw i ariannu gwariant cyfalaf.

40 Y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) yw'r swm isaf y mae'n rhaid ei chodi ar gyfrif refeniw awdurdod bob blwyddyn ar gyfer ariannu gwariant cyfalaf a fydd wedi cael ei ariannu i ddechrau drwy fenthyciad. Mae'n rhan o holl arferion cyfrifyddu'r Awdurdod ac mae'n ymwneud â sicrhau bod yr Awdurdod yn gallu talu'r dyledion sydd ganddo wrth brynu asedau cyfalaf, megis adeiladau a cherbydau.

41 Mae rheoliadau'n mynnu bod yr Awdurdod yn pennu, ymhob blwyddyn ariannol, swm y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw sy'n ddarbodus yn eu barn nhw, drwy gyfeirio at ofyniad cyllido cyfalaf (CFR).

42 Ers gosod cyllideb y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw, nid oedd y gwariant cyfalaf a ddisgwylid yn 2020/21 wedi cael ei gwireddu felly mae tanwariant ar y gyllideb hon.

**BENTHYCA**

43 Caiff gwariant cyfalaf ei ariannu gan mwyaf drwy fenthyciadau allanol. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n rheoli gweithgareddau rheoli'r trysorlys ar gyfer yr Awdurdod. Er bod y gwariant cyfalaf yn cael ei ariannu gan mwyaf drwy fenthyciadau yn y tymor byr, caiff yr Awdurdod ddefnyddio arian refeniw sydd dros ben.

44 Dyma'r sefyllfa bresennol o ran benthyciadau'r Awdurdod:

| Prifswm Benthyciad | Balans Prifswm ar 31 Mawrth 2021 £000 | Benthyc-iadau a ad-dalwyd £000 | Benthyc-iadau newydd £000 | Balans Prifswm ar 30 Tach. 2021 £000 | Symudiad Rhag – Mawrth 2022 £000 | Balans a Ragamcenir ar 31 Mawrth 2022 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tymor byr* | 14,000 | (14,000) | 9,000 | 9,000 | 0 | 9,000 |
| Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus | 12,119 | (1,779) | 4,000 | 14,340 | (723) | 13,617 |
| **Cyfanswm** | **26,119** | **(15,779)** | **13,000** | **23,340** | **(723)** | **22,617** |

*Mae'r benthyciadau am gyfnod o 6 mis

45 Mae cyfraddau llog sefydlog o bob benthyciad. Dyma'r llog ar fenthyciadau:

| Llog a delir | Llog a dalwyd hyd at 30 Tach. 2021 £000 | Llog a ragamcenir Rhag – Mawrth 2022 £000 | Taliadau llog a ragamcenir £000 |
|---|---|---|---|
| Tymor byr | 3 | 1 | 4 |
| Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus | 184 | 111 | 295 |
| **Cyfanswm** | **187** | **112** | **299** |

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae gan yr adroddiad hwn gysylltiad ag amcanion llesiant tymor hir ATAGC. Mae arian i'r Gwasanaeth yn fuddiol i gymunedau Gogledd Cymru ac mae'n sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn digwydd yn y seilwaith er mwyn galluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith ataliol ymhell i'r dyfodol. |
| Cyllideb | Caiff y gyllideb ei gosod bob blwyddyn yn unol â'r gwasanaethau arfaethedig sy'n cynnwys ymateb brys a gwaith ataliol. |
| Cyfreithiol | Mae'n ofynnol dan y gyfraith i'r Awdurdod lunio'r Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r safonau a ragnodwyd. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Caiff incwm a gwariant eu monitro'n ofalus er mwyn sicrhau bod unrhyw achos o wyro o'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael eu canfod a'u hadrodd yn briodol i'r Aelodau. |

## Atodiad 1 – Dadansoddiad Goddrychol 2021/22

| Pennawd y gyllideb | Cyllideb £ | Rhagamcan £ | Amrywiad £ | Sylwebaeth |
|---|---|---|---|---|
| Gweithwyr | 28,407,680 | 27,433,768 | (973,912) | Mae nifer o swyddi gwag o fewn diogelwch tân, diffoddwyr tân ar gael yn ôl y galw, a swyddi cefnogol eraill. Ailddechreuwyd ar y gwaith recriwtio ac mae'r swyddi hyn yn parhau'n hanfodol i gyflawni amcanion yr Awdurdod. |
| Safleoedd | 2,682,154 | 3,020,954 | 338,800 | Mae'r gorwariant a ragamcenir yn ymwneud â gwaith trwsio a chynnal a chadw sydd ei agen ar orsafoedd. |
| Cludiant | 998,061 | 931,490 | (66,571) | Mae'r gwariant o fewn y flwyddyn yn cynnwys y costau parhaus sy'n deillio o addasiadau yr oedd eu hangen i sicrhau parhad y gwasanaeth yn ystod pandemig Covid 19. Gan fod gweithgareddau'n cynyddu, mae costau cludiant yn cynyddu, ond mae'r rhain yn dal yn is nag oeddent cyn y pandemig. |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 4,997,183 | 5,808,476 | 811,293 | Mae hyn yn cynnwys costau uwch mewn perthynas â thrwyddedau cyfrifiadurol a gwaith cynnal a chadw sy'n cynnwys cyflwyno M365, yn ogystal â chostau'n ymwneud â phrosiectau trawsffurfiadol sy'n cynnwys gweithio ystwyth a'r parhad yn yr angen am lefelau uwch o gyfarpar amddiffyn personol o ganlyniad i bandemig Covid 19. |
| Ariannu Cyfalaf | 2,467,243 | 2,323,527 | (143,716) | Disgwylir £0.14m o danwariant, sy'n adlewyrchu'r gostyngiad yn rhaglen gyfalaf 2020/21. Mae'r rhagolwg hwn yn disgwyl y bydd y cyfraddau llog yn aros ar eu lefelau presennol. |
| Cyllid Grant | (2,187,555) | (2,187,555) | 0 | Disgwylir i'r holl arian grant gael ei ddefnyddio yn ystod y flwyddyn. |
| Incwm | (290,529) | (367,005) | (76,476) | Mae'r rhan fwyaf o'r incwm yn ymwneud â chostau a ad-dalwyd am ddefnyddio cyfleusterau. Mae'r tanwariant yn ymwneud â gwerthu hen gyfarpar. |
| Trosglwyddiadau i mewn/allan o'r cronfeydd wrth gefn | 0 | 110,582 | 110,582 | Cyfraniad o'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer mân waith adeiladu a gwahanol brosiectau TGCh a gafodd eu gohirio oherwydd Covid.<br>Cyfraniad Ariannu Cyfalaf i gronfeydd wrth gefn i ariannu cynnydd posibl yn y cyfraddau llog. |
| **Cyfanswm** | **37,074,237** | **37,074,237** | **(0)** | |

*Mae'r ddogfen yma ar gael yn Gymraeg* **Eitem ar yr Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **20 Rhagfyr 2021** |
| Swyddog Arweiniol | **Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen Howard** |
| Pwnc | **Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2022/25 a Chyllideb 2022/23** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2022/25 a'r cyllidebau refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer 2022/23 i'r Aelodau.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub (yr Awdurdod) osod cyllideb fantoledig ymhob blwyddyn ariannol a chadarnhau ffigyrau cyfraniad amcanol i bob awdurdod cyfansoddol erbyn diwedd y mis Rhagfyr cyn dechrau'r flwyddyn ariannol.

3 Mae'r adroddiad hwn yn gosod y cyllidebau refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer 2022/23 a'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig hyd at Fawrth 2025. Caiff y cyllid sydd ei angen gan bob awdurdod lleol cyfansoddol ei gadarnhau hefyd.

4 Mae'r gyllideb ar gyfer 2022/23 a'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys nifer o ragdybiaethau allweddol, risgiau ac ansicrwydd a ganfuwyd yn ystod y broses o gynllunio'r gyllideb.

**ARGYMHELLION**

5 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) cymeradwyo'r cyllidebau cyfalaf a refeniw ar gyfer 2022/23 ar sail cynnydd o £2.34m yn y cyfraniadau gan yr awdurdodau cyfansoddol;
(ii) nodi'r risgiau allweddol ac ansicrwydd a ganfuwyd yn ystod y broses o gynllunio'r gyllideb; a
(iii) cefnogi'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

**SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL**

6 Roedd cyfarfodydd cynllunio'r aelodau a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2021 yn rhoi trosolwg o ofyniad y gyllideb ar gyfer 2022/23, ynghyd â'r risgiau a'r ansicrwydd cysylltiol.

## CEFNDIR

7 Mae Cynllun Gwella a Llesiant 2022/23 yn cadarnhau amcanion llesiant tymor hir yr Awdurdod:

**Amcan 1**: gweithio tuag at wneud gwelliannau i iechyd, diogelwch a llesiant pobl yng Ngogledd Cymru
**Amcan 2**: parhau i weithio ar y cyd i helpu cymunedau i gynyddu eu cadernid
**Amcan 3:** gweithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael
**Amcan 4**: parhau i ganfod cyfleoedd i annog mwy o ymgysylltu â phobl, cymunedau a rhandaliad
**Amcan 5:** cynnal gweithlu sy'n addas o amrywiol, cadarn, medrus, proffesiynol a hyblyg
**Amcan 6:** datblygu ffyrdd o fod yn fwy ymwybodol o'r amgylchedd er mwyn lleihau'r effeithiau y mae ein gweithgareddau yn eu cael ar yr amgylchedd
**Amcan 7:** sicrhau bod gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried, gan gynnwys yn ystod prosesau caffael**.**

8 Ers dechrau yn ei swydd ar 1 Gorffennaf 2021, mae'r Prif Swyddog Tân wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd yn fewnol â staff, cynrychiolwyr o Undeb yr FBU, arweinwyr gwasanaethau brys eraill yn ogystal â Phrif Weithredwyr Awdurdodau Lleol.

9 Arweiniodd y gwaith hwn at gyflwyniad i'r Aelodau ar 20 Medi 2021 i drafod yr asesiad sefyllfaol. Roedd hwn yn cadarnhau mai'r heriau allweddol sy'n wynebu'r Awdurdod yw cynnal lefel ddigonol o griwiau tân ar-alwad ar gael; sicrhau digon o adnoddau i gynnal a datblygu sgiliau diffoddwyr tân; a chael digon o gapasiti corfforaethol i ateb y galw presennol ac yn y dyfodol.

10 Cynhaliwyd sesiynau cynllunio ar gyfer yr aelodau ar 2 Tachwedd 2021, i ddatblygu'r cynigion cychwynnol i fynd i'r afael â'r heriau a ganfuwyd a chanlyniadau'r gyllideb. Roedd hyn yn sicrhau bod dull strategol yn cael ei ddilyn wrth wneud cynlluniau ariannol, ynghyd â chyllid i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion yr Awdurdod.

## CYLLIDEB REFENIW DDRAFFT 2022/23

11 Cynhaliwyd gwaith cynllunio manwl ar y gyllideb, ac amlinellir y rhagdybiaethau cynllunio allweddol, y risgiau a'r ansicrwydd yn Atodiad 1.

12 Mae'r broses gynllunio wedi cadarnhau £39.41m o ofyniad gwariant net ar gyfer 2022/23, sef cynnydd o £2.34m o'r naill flwyddyn i'r llall. Mae'r cynnydd hwn yn cynnwys £1.13m i fynd i'r afael â'r heriau a ganfuwyd gan y Prif Swyddog Tân.

13 Mae'r tabl isod yn darparu ailgysoniad rhwng cyllideb refeniw 2021/22 a'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2022/23. Mae'r cyfraniad gan bob awdurdod cyfansoddol wedi'i nodi yn atodiad 4.

| | £'m |
|---|---|
| **Cyllideb 2021/22** | **37.07** |
| Ymgodiad chwyddiannol | 1.01 |
| Yswiriant Gwladol | 0.20 |
| Mwy o ddarpariaeth hyfforddiant | 0.39 |
| Mwy o gadernid gweithredol | 0.29 |
| Cadernid corfforaethol a chapasiti | 0.25 |
| Diogelwch Tân Busnesau | 0.20 |
| **Gofyniad y gyllideb ar gyfer 2022/23** | **39.41** |

14 Mae costau cyflogau gweithwyr yn uwch na 70% o'r gwariant net, a £28.5m yw'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2022/23, sy'n rhagdybio 2% o ddyfarniad cyflog ar gyfer yr holl staff a chostau yswiriant gwladol uwch. Gan nad yw'r dyfarniadau cyflog cenedlaethol wedi'u cwblhau'n derfynol eto, mae hyn yn dal yn risg arwyddocaol wrth gynllunio. Mae'r gwaith yn parhau i sicrhau bod costau gweithwyr yn cael eu rheoli'n ofalus, gan gynnwys parhau i reoli cyflog amrywiol.

15 Ceir dadansoddiad isod o gostau gweithwyr, sy'n cadarnhau bod mwy nag 88% o'r costau'n ymwneud â gweithwyr sy'n gweithio mewn swyddi sy'n darparu gwasanaethau.

| Dadansoddiad o'r Gyllideb Staffio | 2022/23 £'m | 2023/24 £'m | 2024/25 £'m |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Ymateb | 22.512 | 22.912 | 23.407 |
| Gwasanaethau Amddiffyn ac Atal | 2.592 | 2.653 | 2.715 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 3.394 | 3.506 | 3.604 |
| **Y Gofyniad ar gyfer y Gyllideb Staffio** | **28.498** | **29.071** | **29.726** |

16 Mae cyfraniadau pensiwn i ddiffoddwyr tân wedi cynyddu yn ystod 2019/20, yn dilyn yr ailbrisiad gan Adran Actiwari'r Llywodraeth yn 2016.

Rhoddodd Llywodraeth Cymru gymorth cychwynnol ac ni chafwyd penderfyniad terfynol ar y sefyllfa hirdymor. Nid yw'r cymorth ar gyfer 2022/23 ac ymlaen wedi'i gwblhau'n derfynol ac mae hyn yn risg o £1.1m. Ar hyn o bryd, rhagdybiaeth y gyllideb, yn dilyn trafodaethau â Llywodraeth Cymru, yw y daw'r un lefel o gyllid.

17 Fel rhan o'r broses o osod y gyllideb, roedd deiliaid cyllidebau wedi cyflwyno eu cynlluniau adrannol yn nodi faint roeddent yn ei ddisgwyl o wariant nad oedd yn gyflogau. Roedd y risgiau penodol ymhob pennawd yn y gyllideb wedi cael eu hystyried, gan arwain at £9.465m o gyllideb arfaethedig ar gyfer cyflenwadau, gwasanaethau a thaliadau trydydd parti. Mae hyn yn cynnwys pwysau costau anochel, yn enwedig o ran yswiriant, costau safleoedd a chostau TGCh. O ran gwariant arall nad yw'n gyflogau, mae 2% o chwyddiant wedi'i gynnwys yn y gyllideb, ond mae chwyddiant cyffredinol a chynnydd mewn prisiau yn deillio o broblemau gyda chadwyni cyflenwi yn parhau'n risg allweddol.

18 Mae'r gofyniad i'r sector cyhoeddus sicrhau sero net erbyn 2030 wedi golygu bod angen adolygiad o effeithlonrwydd ynni yn yr ystâd a lefel allyriadau cerbydau. Mae'r gyllideb yn cynnwys dyraniad i ddechrau ar y gwaith sydd ei angen i leihau ein hôl troed carbon. Bydd y gwaith cynllunio manwl yn parhau drwy gydol 2022/23,

19 Mae costau ariannu cyfalaf yn cynnwys costau benthyca a thaliadau refeniw am ddefnyddio asedau cyfalaf. Ni ragwelir cynnydd yng nghyfraddau llog Banc Lloegr yn ystod 2022/23 ac mae hyn wedi'i ffactorio yn y gyllideb. Mae cyllideb ariannu cyfalaf 2022/23 wedi cael ei gostwng i adlewyrchu'r gostyngiadau yn y rhaglen gyfalaf yn y blynyddoedd diwethaf.

20 Bydd y gwaith yn parhau i sicrhau bod cyllideb refeniw 2022/23 yn adlewyrchu'r amgylchedd ansicr yr ydym yn gweithredu o'i fewn ar hyn o bryd oherwydd Covid-19. Gallai hyn olygu bod angen diwygio'r dyraniadau cyllideb rhwng penawdau'r gyllideb er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau sy'n newid.

## CYNLLUN CYFALAF DRAFFT 2022/23

21 Mae'r cynllun cyfalaf drafft wedi'i amlinellu yn Atodiad 3 ac mae'n cadarnhau £2.916m o ofyniad cyfalaf ar gyfer 2022/23. Mae prif elfen y cynllun yn ymwneud â'r buddsoddiad hanfodol mewn peiriannau tân newydd.

22 Mae'r cynllun yn cynnwys cario £1.083m o gyllid drosodd o 2021/22. Mae hyn wedi digwydd yn bennaf oherwydd amser adeiladu'r peiriannau tân.

23 Dim ond cynlluniau gwaith adeiladu y gellir ei gwblhau'n ddiogel yn yr hinsawdd sydd ohoni sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun. Bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu cyn rhyddhau'r cyllid.

24 Fel y soniwyd ym mharagraff 18, mae gwaith yn mynd ymlaen i leihau ein hallyriadau carbon. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae gwaith wedi cael ei wneud i adolygu'r cerbydau anarbenigol, er mwyn symud i ffwrdd oddi wrth injanau disel. Mae sawl cerbyd hybrid wedi cael eu prydlesu i swyddogion ar ddyletswydd, yn lle cerbydau disel ar brydles. Bydd prydlesu cerbydau hybrid a thrydan yn parhau, a byddant yn cymryd lle cerbydau a berchnogir, fel y maent angen eu hadnewyddu. Ar hyn o bryd, mae prydlesu'n fwy cost-effeithiol na phrynu'r cerbydau. Mae hyn hefyd yn galluogi Adran y Fflyd i adolygu eu cynaliadwyedd a'u perfformiad ac i fanteisio ar y dechnoleg ddiweddaraf. Caiff hyn ei adolygu'n barhaus gan Bennaeth y Fflyd a Phennaeth Cyllid.

25 Drwy brydlesu cerbydau, yn hytrach na'u prynu, mae hyn wedi golygu gostyngiad yn y cynllun cyfalaf, gan fod costau prydlesu wedi'u cynnwys yn y gyllideb refeniw. Mae manylion yr ymrwymiadau prydlesu wedi'u cynnwys yn Atodiad 3.

26 Bydd y gwariant cyfalaf yn cael effaith ganlyniadol ar y taliadau ariannu cyfalaf ym mlynyddoedd y dyfodol sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

## STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2020/23

27 Mae'r Strategaeth ddrafft wedi'i darparu yn Atodiad 2, ac mae'n asesiad o'r costau sy'n gysylltiedig â chynnal y lefel gyfredol o ddarpariaeth gwasanaethau. Gwariant yn ymwneud â gweithwyr yw'r prif sbardun costau o hyd, ac mae'r strategaeth ariannol tymor canolig yn seiliedig ar ragdybiaeth gynllunio o 2% o ddyfarniad cyflog.

28 Mae'r risgiau a'r ansicrwydd allweddol sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolog wedi'u hamlinellu yn Atodiad 1. Y rhagdybiaeth gynllunio gyfredol ar gyfer y Strategaeth yw y bydd arian grant ychwanegol ar gyfer prosiect Airwave yn parhau, mae dyfarniadau cyflog wedi'u cynllunio ar sail 2% a bydd y costau pensiwn ychwanegol yn deillio o brisiad Adran Actiwari'r Llywodraeth o gynllun pensiwn y diffoddwyr tân yn 2016 yn parhau i gael ei ariannu'n ganolog.

29 Mae gwariant cyfalaf yn y dyfodol yn parhau i ymwneud â chael peiriannau tân a cherbydau arbennig newydd, yn ogystal â chael systemau TGCh newydd. Nid yw'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolog yn cynnwys unrhyw gostau yn ymwneud ag uwchraddio cyfleusterau hyfforddi, sydd wrthi'n cael eu hadolygu.

## CYFRANIADAU'R AWDURDODAU CYFANSODDOL

30 Mae cyfraniadau arfaethedig yr Awdurdodau cyfansoddol wedi'u nodi yn Atodiad 4.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r gyllideb yn galluogi'r Awdurdod i gyflawni ei amcanion llesiant tymor hir. |
| Cyllideb | £2.34m yw'r amcangyfrif cyfredol o'r cynnydd o'r naill flwyddyn i'r llall yng nghyfraniadau llywodraeth leol ar gyfer 2022/23. |
| Cyfreithiol | Mae dyletswydd gyfreithiol ar yr Awdurdod Tân ac Achub i osod cyllideb fantoledig. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau ac Ansicrwydd | Mae'r gyllideb ddrafft wedi cael ei hasesu o ran risgiau, a nodwyd y risgiau allweddol a ganlyn:<br>• mae'r gyllideb yn seiliedig ar y rhagdybiaeth mai 2% fydd y dyfarniadau cyflog. Ni ddaethpwyd i gytundebau cenedlaethol eto;<br>• y rhagdybiaeth gynllunio yw y bydd cymorth Llywodraeth Cymru tuag at y cynnydd ym mhensiynau diffoddwyr tân yn parhau. Os na ddaw cymorth, mae £1.1m o risg;<br>• y rhagdybiaeth gynllunio y bydd cyllid Llywodraeth Cymru o £0.4m yn parhau ar gyfer rhwydwaith cenedlaethol y gwasanaethau brys (grant Airwave);<br>• mae'r Awdurdod yn bwriadu parhau i ddatblygu Strategaeth Amgylcheddol yn ystod 2022/23. Ni wnaethpwyd asesiad o'r costau eto; ac<br>• mae'r ansicrwydd am chwyddiant cyffredinol a phrinder yn y cadwyni cyflenwi yn parhau, ac nid oes costau ychwanegol wedi'u ffactorio i gyllideb 2022/23. |

## Atodiad 1 – Crynodeb o'r rhagdybiaethau cynllunio a'r risgiau

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddir wrth osod y gyllideb | Risgiau |
|---|---|---|
| Goblygiadau Covid-19 | Mae goblygiadau pandemig Covid-19 yn bellgyrhaeddol ar draws y sector cyhoeddus, ac maent yn cael eu rheoli'n ofalus bob dydd. Fodd bynnag, wrth i'r sefyllfa barhau i ddatblygu ac esblygu, nid oes modd cynllunio ag unrhyw sicrwydd beth fydd y goblygiadau ar gyfer y flwyddyn i ddod a'r tu hwnt.<br><br>Oherwydd y lefel uchel o ansicrwydd, mae'r ffordd sylfaenol o osod y gyllideb yn cynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau mewn amgylchedd arferol heb Covid-19. | Mae'r pandemig yn golygu nifer o risgiau:<br>• amrywiadau yn y costau cyflogau oherwydd oedi wrth recriwtio a lefelau uchel o salwch.<br>• amrywiadau yn y costau nad ydynt yn gyflogau, yn deillio o newidiadau mewn gweithgareddau neu broblemau gyda'r cadwyni cyflenwi. |

**Atodiad 1 – Crynodeb o'r rhagdybiaethau cynllunio a'r risgiau**

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddir wrth osod y gyllideb | Risgiau |
|---|---|---|
| Costau gweithwyr | • Mae'r cyllidebau staffio wedi cael eu creu ar sail modelau cyflenwi gwasanaethau sy'n bodoli eisoes ac wedi cael eu diweddaru i ddelio â'r risgiau a nodwyd yn asesiad sefyllfaol y Prif Swyddog Tân. Rhagwelir y bydd angen swyddi ychwanegol i fodloni gofynion hyfforddi a materion capasiti corfforaethol.<br>• Roedd yr asesiad cynllunio cychwynnol a gyflwynwyd i'r aelodau ym mis Tachwedd 2021 yn rhagdybio 2% o ddyfarniad cyflog cenedlaethol. Mae hyn yn parhau'n risg allweddol, gyda chost o £0.2m am bob 1% yn uwch na'r gyfradd hon.<br>• Mae cyfraniadau yswiriant gwladol wedi cynyddu 1.25% ac ni ragdybir unrhyw gymorth gan y llywodraeth ganolog o fewn y broses o osod y gyllideb.<br>• Rhagdybir y bydd y cynnydd i gyfraddau cyfraniad pensiwn y cyflogwr yn deillio o brisiad Adran Actiwari'r Llywodraeth yn parhau i gael ei ariannu drwy grant gan Lywodraeth Cymru.<br>• Yn dilyn yr ymchwiliad cyhoeddus i drychineb Grenfell, mae'r Ddeddf Diogelwch Tân (2021) wedi cyflwyno newidiadau i'r rheoliadau adeiladu. Mae hyn yn cynnwys newidiadau i gyfrifoldebau a fydd yn effeithio ar y sector tân ac achub. Mae'r effaith wrthi'n cael ei hasesu, a chynhwyswyd darpariaeth gychwynnol o £0.2m yn y gyllideb ar gyfer 2022/23. | • Mae'r NJC wedi dod i gytundeb ynghylch dyfarniad cyflog i ddiffoddwyr tân yn 2021/22 ond nid yw eto wedi cyhoeddi cynigion ar gyfer 2022/23.<br>• Nid yw'r NJC ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol wedi dod i gytundeb eto am y dyfarniad cyflog i staff ar gontractau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar gyfer 2021/22, nac wedi cyhoeddi cynigion ar gyfer 2022/23.<br>• Mae'r gwaith o gynllunio'r gyllideb yn rhagdybio lefelau arferol o weithgarwch. Os bydd amodau prysur, bydd pwysau ar y gyllideb. Y rhagdybiaeth waith yw defnyddio'r Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn yn y lle cyntaf.<br>• Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd y grant i gefnogi'r cynnydd yng nghyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer cynllun pensiwn y diffoddwyr tân yn parhau ar gyfer 2022/23, ond nid yw swm y cyllid yn hysbys. Amcangyfrifir mai £1.1m yw'r costau ar gyfer 2022/23.<br>• Yn Rhagfyr 2018, collodd y llywodraeth ei hapêl gyfreithiol yn erbyn y trefniadau trosiannol ar gyfer diffoddwyr tân. Bydd y rhwymedi'n gymwys ar draws cynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus. Nid yw'r canlyniad ariannol yn hysbys, ac ni wnaethpwyd unrhyw ddarpariaeth. |

**Atodiad 1 – Crynodeb o'r rhagdybiaethau cynllunio a'r risgiau**

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddir wrth osod y gyllideb | Risgiau |
|---|---|---|
| Costau nad ydynt yn gyflogau | • Roedd yr asesiad cynllunio cychwynnol yn cydnabod 3% o gynnydd cyfartalog ar draws cyllidebau nad ydynt yn gyflogau. Mae hyn yn parhau'n faes risg ac ansicrwydd arwyddocaol. | • Tra bo'r Gwasanaeth yn parhau i adolygu costau nad ydynt yn gyflogau ac yn ymdrechu i reoli pwysau costau o fewn y gyllideb a gynlluniwyd, mae hyn yn parhau'n faes risg oherwydd y pwysau parhaus yn y cadwyni cyflenwi oherwydd cynnydd mewn prisiau a phroblemau argaeledd. Mae'r sefyllfa'n cael ei rheoli'n ofalus ond oherwydd ansicrwydd mawr nid oes modd mesur yr effaith. Ni wnaethpwyd darpariaeth yn y gyllideb ar gyfer costau eithriadol y gellid eu profi yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23.<br>• Mae'r broses genedlaethol o gaffael Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys yn mynd yn ei blaen ond cafwyd oedi mawr. Mae'r contract presennol wedi cael ei ymestyn ac ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn cael £0.4m gan Lywodraeth Cymru ar gyfer darparu'r gwasanaeth presennol. Y rhagdybiaeth yw y bydd y cymorth refeniw cyfredol yn parhau, er na chafwyd cadarnhad o hyn eto<br>• Er bod yr Awdurdod yn parhau i weithio tuag at leihau ei ôl troed carbon, nid oes cynlluniau manwl wedi cael eu ffurfioli. Bydd y gwaith hwn yn symud ymlaen yn ystod 2022/23, ac er bod rhywfaint o ddarpariaeth wedi cael ei wneud ar sail y gwaith a ddisgwylir, rhagwelir y bydd angen cyllideb ychwanegol yn y dyfodol. |

**Atodiad 1 – Crynodeb o'r rhagdybiaethau cynllunio a'r risgiau**

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddir wrth osod y gyllideb | Risgiau |
|---|---|---|
| Ariannu Cyfalaf | • Caiff y gofyniad cyllid cyfalaf ar gyfer 2022/23 ei ddylanwadu gan y gwariant cyfalaf sy'n digwydd hyd at Fawrth 2022. Yn ôl yr amcangyfrifon cyfredol ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22, bydd £1.2m o alldro o gymharu â'r £3.0m yn y cynllun a gymeradwywyd. Mae'r gostyngiad wedi digwydd yn bennaf oherwydd llithrant wrth gael cerbydau newydd. | • Nid yw'r cynnydd posibl yn y cyfraddau llog yn hysbys, a gallai fod yn uwch na'r rhagdybiaethau cynllunio. |
| Incwm | • Adolygwyd y cyllidebau incwm, a'u gosod yn unol â'r blynyddoedd blaenorol. | • Ni chanfuwyd unrhyw risgiau penodol yn fwy na'r incwm grant gan Lywodraeth Cymru y cyfeiriwyd ato eisoes yn yr adroddiad hwn. |

**Atodiad 2 Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2022/2025 – Refeniw**

| | Cyllideb 2021/22 £'m | Rhagamcan 2021/22 £'m | Cyllideb 2022/23 £'m | Cyllideb 2023/24 £'m | Cyllideb 2024/25 £'m |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau cyflogau gweithwyr | 26.953 | 27.434 | 28.498 | 29.071 | 29.726 |
| Costau eraill yn ymwneud â gweithwyr | 1.506 | | 1.548 | 1.590 | 1.620 |
| **Cyfanswm y Costau Gweithwyr** | **28.459** | **27.434** | **30.046** | **30.661** | **31.346** |
| **Cynnydd mewn Costau Gweithwyr** | | | **5.58%** | **2.05%** | **2.23%** |
| Safleoedd | 2.725 | 3.021 | 2.783 | 2.754 | 2.771 |
| Cludiant | 0.983 | 0.931 | 1.078 | 0.996 | 1.002 |
| Cyflenwadau, Gwasanaethau a Thrydydd Partïon | 4.983 | 5.808 | 5.604 | 6.206 | 6.292 |
| **Cyfanswm y Gwariant nad yw'n Gyflogau** | **8.691** | **9.760** | **9.465** | **9.956** | **10.065** |
| **Cynnydd yn y Gwariant nad yw'n Gyflogau** | | | **8.91%** | **5.19%** | **1.09%** |
| Ffioedd a Thaliadau/Incwm Amrywiol | - 0.356 | - 0.367 | - 0.275 | - 0.234 | - 0.235 |
| Incwm Grant | - 2.187 | - 2.187 | - 2.187 | - 2.187 | - 2.187 |
| **Cyfanswm yr Incwm** | **- 2.543** | **- 2.554** | **- 2.462** | **- 2.421** | **- 2.422** |
| Ariannu Cyfalaf a Thaliadau Llog | **2.467** | **2.324** | **2.363** | **2.717** | **2.846** |
| Defnyddio Cronfeydd wrth gefn | | 0.110 | | | |
| **Gofyniad y Gyllideb** | **37.074** | **37.074** | **39.412** | **40.913** | **41.835** |
| **Cynnydd yn y Gyllideb** | | | **6.31%** | **3.81%** | **2.25%** |

**Atodiad 3 Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2022/2025 – Cyfalaf**

| Cynllun | 2022/23 £'m | 2023/24 £'m | 2024/25 £'m |
|---|---|---|---|
| Uwchraddio'r System Gorchymyn a Rheoli | - | 0.500 | 0.500 |
| Peiriannau Tân yn lle hen rai | 1.248 | 2.719 | 2.719 |
| Faniau Gorsaf Amlbwrpas | 0.160 | - | - |
| Faniau Gweithdy | - | 0.150 | - |
| Cyfarpar Gweithdy | 0.020 | - | - |
| Peiriannau Arbennig | - | 1.200 | 0.250 |
| ESXI Host newydd | - | 0.040 | - |
| Offer Anfon Allan o Orsafoedd | - | - | 0.300 |
| Cyfarpar Gweithredol | - | - | 1.000 |
| Tyrrau Hyfforddi Newydd | 0.160 | 0.160 | 0.160 |
| Mân Waith Adeiladu | 0.245 | 0.298 | 0.148 |
| **Cyfanswm: 2022/23** | **1.833** | **5.067** | **5.077** |
| Cario drosodd – Peiriannau Tân | 0.923 | | |
| Cario drosodd – Tyrrau Hyfforddi | 0.160 | | |
| **Cyfanswm: Cario drosodd o 2021/22** | **1.083** | | |
| **Cyfanswm: Cynllun Cyfalaf** | **2.916** | **5.067** | **5.077** |

| Ymrwymiadau Prydlesu | 2022/23 £m | 2023/24 £m | 2024/25 £m | 2025/26 £m | 2026/27 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Cerbydau ar brydles – ad-daliadau | 0.272 | 0.365 | 0.356 | 0.278 | 0.088 |

**Atodiad 4 – Cyfraniadau Awdurdodau Lleol Cyfansoddol 2022/23**

| Awdurdod | Cyfraniad 2021/2022<br>£ | Poblogaeth | Dosraniad<br>% | Gofyniad ar gyfer y Gyllideb 2022/2023<br>£ | Cynnydd<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Ynys Môn | 3,689,651 | 69,864 | 10% | 3,915,486 | 225,835 |
| Cyngor Gwynedd | 6,596,692 | 125,220 | 18% | 7,017,885 | 421,193 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 6,230,520 | 118,320 | 17% | 6,631,214 | 400,694 |
| Cyngor Sir Ddinbych | 5,060,195 | 96,021 | 14% | 5,381,432 | 321,236 |
| Cyngor Sir y Fflint | 8,282,403 | 157,264 | 22% | 8,813,821 | 531,418 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 7,214,775 | 136,535 | 19% | 7,652,042 | 437,266 |
| **Cyfanswm** | **37,074,237** | **703,224** | **100%** | **39,411,879** | **2,337,642** |

Ffigyrau poblogaeth: Is-adran Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru
LGFPSettlement@Gov.Wales

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **20 Rhagfyr 2021** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau)** |
| Swyddog Cyswllt | **Julie Brown (07787578430)** |
| Pwnc | **Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân – Gweithdrefn Fewnol ar gyfer Datrys Anghydfodau** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad yw rhoi gwybodaeth i aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub (ATA) ynghylch newidiadau arfaethedig i'r Weithdrefn Fewnol ar gyfer Datrys Anghydfodau. Rhaid gwneud y newidiadau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r cyfarwyddyd diweddaredig yng Nghylchlythyr Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân (2021)09.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae Deddf Pensiynau 1995 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheolwr Cynllun sefydlu gweithdrefnau i fynd i'r afael â chwynion. Mae rhagor o gyfarwyddyd a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn rhagnodi fframwaith ar gyfer Gweithdrefn Fewnol ar gyfer Datrys Anghydfodau mewn perthynas â Chynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân yng Nghymru. Mae cydymffurfiaeth â'r cyfarwyddyd hwn yn sicrhau bod y cynllun yn cael ei weinyddu a'i reoli'n briodol, yn unol â'r rheolau a'r rheoliadau perthnasol.

3 Roedd Llywodraeth Cymru wedi diweddaru'r cyfarwyddyd ar gyfer y Weithdrefn ym mis Mehefin 2021, ac mae hynny wedi dangos bod angen diwygio ail gam y broses. Ar hyn o bryd, caiff cwynion cam 2 eu hystyried gan Gadeirydd yr ATA yn unig, ac nid yw hyn yn gyson â'r cyfarwyddyd.

4 Yng nghyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol yn Awst 2021, cynigiodd aelodau'r bwrdd y dylai cwynion cam 2 gael eu hystyried gan banel yn cynnwys Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr ATA ynghyd ag un o gynrychiolwyr y cyflogwr ar y Bwrdd Pensiwn Lleol.

5 Mae'r Weithdrefn wedi'i chyhoeddi ar wefan y Gweinyddwr Pensiwn.

**ARGYMHELLIAD**

6 Bod yr Aelodau'n cefnogi'r newidiadau arfaethedig i gam dau o drefniadau'r Weithdrefn, ac yn enwebu un o gynrychiolwyr y cyflogwr i sefyll ar y panel.

**GWYBODAETH**

7 Mae Deddf Pensiynau 1995 yn ei gwneud yn ofynnol i bob cynllun pensiwn galwedigaethol gael Gweithdrefn Fewnol ffurfiol ar gyfer Datrys Anghydfodau. Mae'r gweithdrefnau hyn yn rhoi cyfle i aelodau'r cynlluniau a dibynyddion aelodau o gynlluniau sicrhau bod eu cwynion yn cael eu hymchwilio'n briodol a bod anghydfodau'n cael eu datrys yn gywir, teg a chyflym.

8 Nid yw rheolau'r cynllun yn rhagnodi sut y dylai trefniadau datrys anghydfodau fod, er bod cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru yn darparu'r fframwaith hwn. Cafodd hyn ei ddiweddaru ym mis Mehefin 2021.

9 Mae'r fframwaith yn caniatáu i faterion cam un gael eu cyfeirio at y Prif Swyddog Tân i ystyried y gŵyn. Mae hyn yn gyson â'r trefniadau cyfredol ac nid oes angen diwygio.

10 Os yw'r aelod yn dal yn anfodlon â'r penderfyniad a gymerir yng ngham un, gall apelio dan gam dau o drefniadau'r Weithdrefn. Ar hyn o bryd, caiff y cam hwn ei gyfeirio at Gadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub.

11 Mae'r cyfarwyddyd diwygiedig ar gyfer y Weithdrefn a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn awgrymu y dylai'r gŵyn cam dau gael ei hystyried gan banel wedi'i enwebu o gynrychiolwyr o'r ATA. Rhaid i'r panel fod yn gallu cael cyngor perthnasol ar faterion technegol neu gyfreithiol fel y bo'n briodol.

12 Caiff y panel gynnwys aelodau etholedig o'r Awdurdod neu unrhyw gynrychiolwyr addas eraill.

13 Argymhellir bod y panel yn cynnwys Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr ATA, gyda chefnogaeth un aelod-gyflogwr o'r Bwrdd Pensiwn Lleol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Effaith bosibl ar lesiant yr aelodau os methir ag adolygu'r cwynion yn gywir. |
| Cyllideb | Dim |
| Cyfreithiol | Mae Deddf Pensiynau 1995 yn ei gwneud yn ofynnol i bob cynllun pensiwn galwedigaethol gael Gweithdrefn Fewnol ar gyfer Datrys Anghydfodau. Mae pob set o reolau Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn cynnwys trefniadau ar gyfer Gweithdrefn Fewnol ar gyfer Datrys Anghydfodau. |
| Staffio | Ystyrir nad yw'n berthnasol |

| | |
|---|---|
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ystyrir nad oes unrhyw faterion y mae angen mynd i'r afael â nhw oherwydd mae'r argymhellion yn gymwys i bob Aelod fel ei gilydd ni waeth beth yw ei nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. |
| Risgiau | Yn ogystal â'r gofynion cyfreithiol, mae angen i bob ATA gydymffurfio â'r cyfarwyddyd a ddarparwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau ynghylch trefniadau'r Weithdrefn Fewnol ar gyfer Datrys Anghydfodau. |

*Mae'r ddogfen yma ar gael yn Gymraeg* **Eitem ar yr Agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **20 Rhagfyr 2021** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau)** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur (01745 535286)** |
| Pwnc | **Gwahaniaethu ar sail Oedran yng Nghynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth i aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub (yr Awdurdod) am hynt y newidiadau deddfwriaethol sydd eu hangen i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oedran sy'n deillio o ddiwygiadau pensiwn 2013. Mae'r adroddiad hefyd yn gwneud cynigion ar gyfer ymdrin ag aelodau sy'n dioddef niwed uniongyrchol yn deillio o'u hymddeoliad neu o'u hymddeoliad sydd ar y gweill.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar wybodaeth flaenorol i'r Awdurdod ac mae gwybodaeth gefndirol ar gael mewn adroddiadau i'r Awdurdod ar 20 Medi 2021, 20 Mehefin 2021 a 9 Tachwedd 2020.

3 Mae'r newidiadau deddfwriaethol sydd eu hangen i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oedran wedi'u cynnwys yn y Bil Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddfeydd Barnwrol (y Bil). Mae'r Bil hefyd yn grymuso awdurdodau cyfrifol i wneud newidiadau i reolau cynlluniau i roi effaith i'r newidiadau hynny (h.y. Gweinidogion Cymru ar gyfer pensiynau diffoddwyr tân yng Nghymru).

4 Nid oes disgwyl i'r gwaith o'u rhoi ar waith yn llwyr gael ei gwblhau tan 1 Hydref 2023, ac yn ystod mis Hydref 2022 cytunwyd ar fframwaith gan gyfreithwyr yn gweithredu ar ran Undeb yr FBU a'r awdurdodau tân ac achub. Mae'r fframwaith yn darparu mecanwaith i alluogi'r rhai dan sylw i dderbyn eu buddion gwaddol cyn y dyddiad hwn.

5 Yn dilyn cyhoeddi'r fframwaith y cytunwyd arni, rhyddhawyd datganiad ar y cyd gan Drysorlys EM/Cyllid a Thollau EM ar 29 Tachwedd 2021, a oedd yn darparu asesiad o'r risgiau i dreth sy'n gysylltiedig â phrosesu achosion o niwed uniongyrchol cyn y newidiadau i'r rheoliadau. Gofynnir am ragor o gyngor cyfreithiol drwy'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) ynghylch y mater hwn.

## SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL NEU'R PWYLLGOR ARCHWILIO

6 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried gan y Panel Gweithredol na'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r Bwrdd Pensiwn Lleol wedi cael gwybodaeth yn ei gyfarfod ar 20 Hydref 2021, ac mae wedi cefnogi'r argymhellion i fabwysiadu cytundeb fframwaith yr LGA/FBU. Fodd bynnag, cafwyd arweiniad pellach gan Drysorlys EM/Cyllid a Thollau EM ers hynny ac nid yw'r Bwrdd Pensiwn Lleol wedi ystyried yr arweiniad hwnnw.

## ARGYMHELLION

7 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi'r sefyllfa bresennol o ran y rhwymedi;
(ii) cymeradwyo ymateb yr Awdurdod i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch newidiadau i reoliadau pensiwn diffoddwyr tân;
(iii) cymeradwyo'r argymhelliad bod achosion o niwed uniongyrchol yn cael eu symud ymlaen yn unol â fframwaith cyfreithiol Undeb yr FBU/LGA, gan ddod i rym ar 4 Ionawr 2022, ar yr amod fod gweddill y cyngor cyfreithiol yn cyrraedd a'u fod yn cadarnhau'r asesiad cychwynnol o risg; a
(iv) bod yr asesiad terfynol o risg yn cael ei ddirprwyo i'r Prif Swyddog Tân mewn ymgynghoriad â Chadeirydd yr Awdurdod.

## CEFNDIR

8 Yn Rhagfyr 2018, penderfynodd y Llys Apêl fod yr amddiffyniad trosiannol yn niwygiadau pensiwn 2013 yn arwain at wahaniaethu anghyfreithlon ar sail oedran. Gwrthododd y Goruchaf Lys gais y Llywodraeth am ganiatâd i apelio, felly mae penderfyniad y Llys Apêl yn sefyll.

9 Ym mis Gorffennaf 2019, cadarnhaodd Llywodraeth y DU ei bod yn bwriadu rhoi effaith i rwymedi yn yr holl gynlluniau sector cyhoeddus. Roedd hyn yn dileu'r angen am ragor o ymgyfreitha gan aelodau cynlluniau eraill yn y sector cyhoeddus yr oedd y Dyfarniad yn effeithio yn yr un modd arnynt.

10 Ar 19 Gorffennaf 2021, roedd Trysorlys EM wedi cyflwyno Bil Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddfeydd Barnwrol (y Bil) i Dŷ'r Arglwyddi. Bydd y Bil yn grymuso awdurdodau cyfrifol i wneud y newidiadau angenrheidiol i reolau'r cynlluniau pensiwn (h.y. Gweinidogion Cymru ar gyfer pensiynau diffoddwyr tân yng Nghymru).

11 Mae tair elfen fras o fewn mesurau arfaethedig y rhwymedi:

1. Bydd pob aelod sy'n gymwys am rwymedi yn dychwelyd i'w gynllun gwaddol am gyfnod y rhwymedi (h.y. 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2022). Gwneir hyn drwy'r darpariaethau sydd o fewn y Bil;
2. Caiff pob aelod o'r cynlluniau gwaddol eu trosglwyddo i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2015, gan ddod i rym ar 1 Ebrill 2022. Gwneir hyn drwy newidiadau i Reoliadau Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân sydd ar gael ar ffurf drafft ar hyn o bryd; a
3. Mecanwaith dewis gohiriedig, sy'n galluogi'r aelodau dan sylw i wneud dewis ar adeg ymddeol. Gwneir hyn drwy newidiadau i Reoliadau Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân (disgwylir yn 2022/23).

12 Ar hyn o bryd, mae'r Bil yn symud drwy'r broses ddeddfwriaethol a rhagwelir y rhoddir Cydsyniad Brenhinol yn Ebrill 2022. Mae'r Bil yn cynnwys yr amserlenni ar gyfer gweithredu'r rhwymedi a ragwelir erbyn 1 Hydref 2023.

13 Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori ar 25 Hydref 2021 mewn perthynas â'r rheoliadau drafft i symud yr holl aelodau gwaddol i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2015 ar 1 Ebrill 2022. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno yw 20 Rhagfyr 2021.

14 Mae ymateb arfaethedig yr Awdurdod i'r ymgynghoriad wedi'i nodi yn Atodiad 1. Ni chanfuwyd unrhyw faterion sydd angen eu hystyried ymhellach gan yr aelodau.

**YMDRIN AG AELODAU Y TYBIR EU BOD Â NIWED UNIONGYRCHOL**

15 Mae'r Bil yn darparu y bydd dewis gohiriedig yn cael ei weithredu erbyn 1 Hydref 2023, a bydd hyn yn gofyn am ragor o newidiadau i reoliadau'r cynllun. Ystyrir bod aelodau sydd wedi ymddeol neu i fod i ymddeol cyn i'r trefniadau deddfwriaethol gael eu cwblhau'n derfynol yn rhai sydd â niwed uniongyrchol.

16 Mae Undeb yr FBU wedi dechrau ar ragor o ymgyfreitha yn erbyn awdurdodau tân ac achub mewn perthynas ag achosion o niwed uniongyrchol, gan geisio cael dyfarniad cyfreithiol y gallai aelodau y mae'r mater yn effeithio arnynt gael eu buddion o'r cynllun gwaddol yn gweithredu'r Bil. Nid oedd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn rhan o'r ymgyfreithiad, er bod y mater yn berthnasol i bob awdurdod.

17 Mae ymgynghorwyr cyfreithiol awdurdodau tân ac achub y DU yn cydnabod yr anawsterau a geir ar draws y sector ac maent wedi cytuno ar ddull gydag Undeb yr FBU a fyddai'n golygu bod modd delio'n gyflym, teg a chyson ag achosion o niwed uniongyrchol.

18 Mae'r cytundeb yn darparu fframwaith cyfreithiol sy'n galluogi aelodau cymwys i dderbyn eu buddion o'u cynllun gwaddol. Mae aelodau cymwys yn dod o fewn dau gategori:

1. Aelodau sy'n gyflogedig ar hyn o bryd ond a allai fod yn dymuno ymddeol cyn 1 Hydref 2023; neu
2. Aelodau sydd wedi ymddeol, a'u buddiolwyr, sy'n derbyn pensiwn o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2015.

19 Mae'r cytundeb hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddatganiad buddion gwaddol gael ei ddarparu o fewn 62 diwrnod ar ôl derbyn cais gan aelod cymwys. Gan nad yw'r feddalwedd wedi'i datblygu eto, caiff y buddion eu cyfrifo â llaw felly mae angen gwaith sylweddol i wirio eu bod yn gyflawn ac yn gywir.

20 Mae'r gwaith o brofi'r prosesau wedi cael ei wneud ar y cyd â Chronfa Bensiwn Dyfed, sy'n gweinyddu'r cynllun ar ran yr Awdurdod. Ystyrir bod modd gweithredu'r fframwaith o 4 Ionawr 2022 ymlaen.

21 Ar 29 Tachwedd 2021, rhyddhawyd datganiad ar y cyd gan Drysorlys EM/Cyllid a Thollau EM a oedd yn amlinellu nifer o gymhlethdodau trethiannol posibl a allai godi yn sgil prosesu achosion o niwed uniongyrchol cyn y newidiadau angenrheidiol i'r ddeddfwriaeth. Mae Trysorlys EM wedi cadarnhau ei bod yn tynnu ei chyfarwyddyd blaenorol ynghylch prosesu achosion o niwed uniongyrchol oherwydd y canlyniadau anfwriadol o ran treth, gan greu'r angen i ailystyried a chywiro achosion ar ôl cyflwyno'r deddfwriaeth ar gyfer y dreth.

22 Mae'n bosibl y bydd achosion sy'n cael eu prosesu cyn y rheoliadau ac yn arwain at iawndal i unigolyn (e.e. i gywiro mater treth) yn cael eu hystyried yn rhai sydd y tu allan i unrhyw fecanwaith gyllidol a sefydlir i fynd i'r afael â chostau rhwymedi, gan gynnwys y costau gweinyddol.

23 Mae'r wybodaeth gan Drysorlys EM/Cyllid a Thollau EM yn rhoi'r Awdurdodau Tân ac Achub mewn lle annheg; daethpwyd i'r cytundeb ag Undeb yr FBU yn ddidwyll er mwyn fel nad oedd raid i achosion prawf fynd i'r Uchel Lys, ond fe allai materion canlyniadol fod yn ymwneud â materion treth a chyllid nad oedd yn hysbys yn flaenorol.

24 Gofynnir am ragor o gyngor cyfreithiol yn genedlaethol ynghylch datganiad Trysorlys EM/Cyllid a Thollau EM, a hynny drwy'r LGA, ac ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn nid oedd y cyngor wedi ein cyrraedd. Yn ôl yr asesiad effaith cychwynnol, gallai parhau i brosesu achosion o niwed uniongyrchol gynyddu'r baich gweinyddol er nad ydym yn ystyried ar hyn o bryd fod effaith ariannol y materion treth yn fawr. Bydd parhau i brosesu hawliadau mewn perthynas â niwed uniongyrchol yn lleihau'r risg o ragor o ymgyfreitha gan yr aelodau.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Er nad oes cysylltiad uniongyrchol â'r amcan llesiant, bydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio ar yr holl aelodau o gynlluniau pensiwn cyhoeddus a gynigir gan yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Bydd rhwymedi yn y dyfodol yn arwain at oblygiad i gyllideb yr Awdurdod; bydd rhwymedi'n arwain at fwy o gostau gweinyddol a phensiwn y cyflogwr. |
| Cyfreithiol | Mae dyletswydd gyfreithiol ar yr Awdurdod i sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau'r Cynllun. |
| Staffio | Mae'r mater hwn yn effeithio'n uniongyrchol ar weithwyr sy'n aelodau o gynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus a gynigir gan yr Awdurdod; gan ddibynnu ar y cynllun, caiff yr aelodau ddewis ymddeol yn gynt o dan y cynigion newydd nag o dan y rheoliadau cyfredol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae'r cynigion yn mynd i'r afael â'r trefniadau amddiffyniad trosiannol anghyfreithlon ar sail oedran sydd yng nghynlluniau pensiwn 2015, gan sicrhau ymdriniaeth deg â holl aelodau'r pensiwn. |
| Risgiau | Mae prosesu achosion o niwed uniongyrchol cyn diwygiadau yn rheoliadau'r cynllun yn cynyddu'r risg o gamgymeriad a rhagor o ymgyfreitha. Mae mesurau rheoli yn bodoli i leihau'r risg. |

## Atodiad 1 – Ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch newidiadau i gynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân yng Nghymru 2021

### Cwestiwn 1

I ba raddau y mae'r rheoliadau drafft yn adlewyrchu'r angen i drosglwyddo aelodau a ddiogelir i mewn i Gynllun 2015 ar 1 Ebrill y flwyddyn nesaf? A oes unrhyw wallau neu hepgoriadau yn y drafft, yn eich barn chi?

**Ateb: Mae'r rheoliadau drafft yn cyflawni eu swyddogaeth ac yn cael yr effaith a ddymunir, sef trosglwyddo aelodau a ddiogelir yn llawn o gynlluniau FPS1992 ac NFPS2007 i gynllun FPS2015 ar 1 Ebrill 2022. Ni chanfuwyd unrhyw hepgoriadau neu faterion a fyddai'n effeithio ar y cynnig.**

### Cwestiwn 2

A oes gennych unrhyw farn ar y cynigion ynghylch cronni dwbl?

**Ateb: Mae'r rheoliadau'n glir fod yr amddiffyniad presennol i groniad dwbl wedi cael ei gadw a'r modd y caiff hyn ei drin o dan y cynigion. Nid oes gennym unrhyw beth arall i'w ychwanegu at y cynigion hyn.**

### Cwestiwn 3

A oes gennych unrhyw farn ar y cynigion ynghylch ymddeol oherwydd afiechyd? Yn benodol, a ydych yn cytuno y dylem ddrafftio'r rheoliadau i wneud darpariaeth ar gyfer ymddeoliadau oherwydd afiechyd sy'n digwydd cyn ac ar ôl y dyddiad trosglwyddo, sy'n sicrhau nad yw'r bobl yn yr amgylchiadau hynny ar eu colled o gymharu â phe byddent wedi ymddeol cyn y dyddiad hwnnw?

**Ateb: Mae'r ATA yn cydnabod bod hwn yn faes anodd a sensitif ac mae'n cytuno â'r sylwadau yn yr ymgynghoriad y gallai'r cais i newid y rheoliad ar 1 Ebrill 2020 olygu niwed uniongyrchol i aelodau sydd eisoes o fewn y broses afiechyd. Fodd bynnag, mae'r cynnig sydd yn yr ymgynghoriad i ddefnyddio dyddiad yr atgyfeiriad at ymarferydd meddygol cymwysedig annibynnol yn mynd i'r afael â hyn ac mae'r ATA yn llwyr gefnogi'r cynnig.**

### Cwestiwn 4

A ydych yn rhagweld unrhyw anawsterau neu rwystrau wrth weithredu'r trosglwyddiad y mae'r rheoliadau yn darparu ar ei gyfer?

**Ateb: Ni chanfuwyd unrhyw rwystrau.**

**Cwestiwn 5**

Mae diddordeb gennym ddeall p'un a fydd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon yn cael effaith ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Y nodweddion gwarchodedig yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â nodweddion gwarchodedig? Os felly, pa rai a pam/pam ddim?

**Ateb: Nid yw’r ATA wedi canfod unrhyw faterion pellach a fyddai’n effeithio’n negyddol ar aelodau â nodweddion gwarchodedig.**

**Cwestiwn 6**

Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion uchod yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

**Ateb: Nid yw’r ATA o’r farn fod y cynigion yn y rheoliadau yn cael effaith gadarnhaol na negyddol ar y Gymraeg.**

**Cwestiwn 7**

Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Ateb: Fel uchod**

**Cwestiwn 8**

A oes gennych unrhyw farn arall ar y cynigion hyn (gan gydnabod nad yw'r polisi na'r gyfraith sylfaenol wedi'u datganoli, ac nad ydynt yn faterion i Lywodraeth Cymru)?

**Ateb: Nid oes gan yr ATA unrhyw farn arall na sylwadau i’w rhoi fel rhan o’r ymgynghoriad hwn.**

*Mae'r ddogfen yma ar gael yn Gymraeg* **Eitem ar yr agenda 11**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **20 Rhagfyr 2021** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Julie Brown, Rheolwr Pensiynau** |
| Pwnc | **Polisi Disgresiynol Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cadarnhau i'r Aelodau y gofyniad i'r Awdurdod Tân ac Achub (yr Awdurdod) lunio Polisi Disgresiynol ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

2 Ceisio cymeradwyaeth i'r penderfyniadau arfaethedig ar gyfer Polisi Disgresiynau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

3 Rhaid i'r Awdurdod baratoi a chyhoeddi datganiad ysgrifenedig ar ei bolisi ynghylch rhai pwerau disgresiynol penodol o dan y Rheoliadau sy'n gymwys i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS). Cafodd y polisi disgresiynol cyfredol ei gymeradwyo gan yr aelodau ar 16 Medi 2019 ac arfer dda yw adolygu'r rhain yn gylchol.

**ARGYMHELLION**

4 Gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo pob penderfyniad disgresiynol i'w ymgorffori ym Mholisi Disgresiynol y Gwasanaeth ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

**CEFNDIR**

5 Mae'r Rheoliadau sy'n gymwys i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn rhagnodi'r modd y caiff y trefniadau pensiwn eu cymhwyso i aelodau'r cynllun. Mae'r Rheoliadau hefyd yn galluogi'r Awdurdod gweinyddol i ddefnyddio ei ddisgresiwn mewn perthynas â rhai materion penodol. O dan gyfansoddiad yr Awdurdod, ni ellid dirprwyo'r penderfyniad i ddefnyddio'r pwerau disgresiynol hyn ac maent wedi'u cadw ar gyfer yr Awdurdod.

6 Mae Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o'r fframwaith cyfreithiol sy'n tanategu'r disgresiynau sy'n gymwys i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae disgresiynau'r Cynllun wedi'u nodi yn Atodiad 2 ac, yn ddibynnol ar gymeradwyaeth, byddant yn ffurfio'r polisi i'w ddefnyddio gan y Gwasanaeth.

**GWYBODAETH**

7 Cafodd y polisi disgresiynol cyfredol ei gymeradwyo gan yr aelodau ar 16 Medi 2019, ac ar ôl cyflwyno'r Cynllun Cyfraniadau Gwirfoddol Costau a Rennir (SCAVC) mae'r disgresiynau wedi cael eu hadolygu. Mae'r Cynllun SCAVC yn caniatáu i aelodau'r cynllun pensiwn wneud cyfraniadau ychwanegol gan ddefnyddio trefniant aberthu cyflog sy'n cydymffurfio â CThEM ac a weinyddir gan ymgynghorwyr treth y Gwasanaeth.

8 Mae'r datrysiad a reolir yn llwyr yn lleihau'r gwaith gweinyddol i'r cyflogwr ac mae'n cynyddu'r ymgysylltiad â'r gweithwyr, gyda desg gymorth bwrpasol ar gyfer gweithwyr, ymwybyddiaeth o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a sesiynau addysgiadol i'r gweithwyr.

9 Mae'r gweithiwr yn elwa o lai o dreth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol. Caiff y gost o weinyddi'r cynllun ei dalu gan y cyflogwr, sydd hefyd yn elwa o lai o gyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r Polisi Disgresiynol yn rhoi eglurder ar gyfer gwneud penderfyniadau am rai materion pensiwn ychwanegol i sicrhau cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Gall rhai penderfyniadau effeithio ar y gyllideb o ran taliadau pensiwn y cyflogwr ac effaith prisiadau actiwaraidd yn y dyfodol. |
| Cyfreithiol | Mae'r rheoliadau sy'n llywodraethu gweinyddiaeth y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn darparu ar gyfer nifer o bwerau disgresiynol ar ran yr Awdurdod Tân. |
| Staffio | Effaith bosibl ar lefelau staffio os bydd rhai disgresiynau'n dylanwadu'n gadarnhaol ar broses yr aelod o wneud penderfyniadau am ymddeol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Methu â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth |

ATODIAD 1

Dyma'r Rheoliadau sy'n gymwys i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol:

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (cyfeirir at y rhain fel y "Rheoliadau Pensiwn");

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol, Arbedion a Diwygio) 2014 (y cyfeirir atynt fel "Rheoliadau Trosiannol");

- Mae Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007, a oedd yn gymwys i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol cyn 1 Ebrill 2014, wedi'u cadw'n rhannol ar sail drosiannol gan y Rheoliadau Trosiannol a chyfeirir atynt fel "Rheoliadau Buddion";

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (**Gweinyddu**) 2008, y cyfeirir atynt fel "Rheoliadau Buddion'';

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (**Darpariaethau Trosiannol**) 2008;

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1997 (fel y'u diwygiwyd, y cyfeirir atynt fel "Rheoliadau Buddion'').

Yn y tabl isod:

(1) Ystyr "y Cynllun" neu'r "Cynllun Pensiwn" yw Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) ac ystyr "y Gronfa" neu'r "Gronfa Bensiwn" yw'r gronfa sy'n cael ei chynnal o dan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol;

(2) Ystyr "aelod" yw aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol;

(3) Ystyr "aelod gweithredol" yw aelod mewn cyflogaeth ac yn talu, neu'n cael ei drin fel pe bai'n talu, cyfraniadau i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, neu sy'n absennol o'r gyflogaeth am reswm a grybwyllir yn Rheoliad 11 o'r Rheoliadau Pensiynau.

(4) Cyfeiriadau at aelod ag amddiffyniad trosiannol yw rhai sydd ag amddiffyniad trosiannol statudol o dan y Rheoliadau Trosiannol, yn llawn neu'n rhannol, rhag newidiadau a fyddai fel arall yn cael eu gwneud i'w hawliau pensiwn a/neu rhag gostyngiadau actiwaraidd a fyddai fel arall yn cael eu cymhwyso i'r buddion pensiwn o ganlyniad i ddyfodiad y Rheoliadau Pensiynau ar 1 Ebrill 2014.

(5) Cyfeiriadau at aelod sy'n bodloni'r "rheol 85 mlynedd" yw aelodau y mae eu hoedran mewn blynyddoedd llawn o'u ychwanegu at holl aelodaeth yr aelod mewn blynyddoedd llawn yn 85 mlynedd neu fwy ac a ymunodd â'r cynllun cyn 1 Hydref 2006.

| Rhif | Rheoliad | Disgresiwn | Polisi |
|---|---|---|---|
| 1 | Rheoliadau 16(2)(e) a 16(4)(d) Rheoliadau Pensiynau<br><br>**Ariannu Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol** | Ariannu, yn llawn neu'n rhannol, gyfraniadau pensiwn ychwanegol ar ran gweithwyr pan fo'r rhain yn cael eu talu drwy gyfraniadau rheolaidd (Rheoliad 16(2)(e)) neu drwy gyfandaliad (Rheoliad 16(4)(d)) (uchafswm £6,500). | Peidio â chymhwyso'r disgresiwn |
| 2 | Rheoliad 16 (16) Rheoliadau Pensiynau<br><br>**Dewis Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol Rhannu Costau** | Boed i ymestyn y terfyn o 30 diwrnod i aelod ddewis Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol Rhannu Costau ar ôl dychwelyd o gyfnod o absenoldeb o'r gwaith gyda chaniatâd heb gyflog pensiynadwy (ac eithrio oherwydd salwch neu anaf, seibiant perthnasol yn ymwneud â phlentyn neu seibiant ar gyfer gwasanaeth gyda'r lluoedd wrth gefn) | Peidio â chymhwyso'r disgresiwn |
| 3 | Rheoliad 17 (1)<br><br>**Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVC) Rhannu Costau** | Boed i gyfrannu at drefniadau cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol rhannu costau (SCAVC), faint, ac ym mha amgylchiadau. | Bydd y Gwasanaeth yn talu cyfraniadau SCAVC pan fo gweithiwr wedi dewis talu AVCau drwy aberthu cyflog. Ni fydd swm cyfraniadau SCAVC y cyflogwr yn uwch na swm y cyflog a aberthir gan y gweithiwr. Mae hwn yn ôl disgresiwn y Cyflogwr, sy'n ddibynnol ar fod y gweithiwr yn bodloni amodau'r Gwasanaeth ar gyfer cael ei dderbyn i'r cynllun AVC rhannu cost aberthu cyflog, a gellid ei dynnu ymaith neu ei newid unrhyw bryd. |

| Rhif | Rheoliad | Disgresiwn | Polisi |
| --- | --- | --- | --- |
| 4 | Rheoliad 22 (7)(b), Rheoliadau Pensiynau<br><br>Rheoliadau Trosiannol paragraff 10 (6)<br><br>**Cyfuno Buddion: Cyflogaethau Cydamserol** | Caniatáu i aelod gweithredol â chyflogaethau cydamserol, sy'n rhoi'r gorau i gyflogaeth gyda hawl i bensiwn gohiriedig, gael cyfnod hirach na 12 mis ar gyfer dewis peidio â chael y buddion yn ei gyfrif pensiwn aelod gohiriedig ar ôl 31 Mawrth 2014 wedi'u cyfuno â'i gyfrif pensiwn aelod gweithredol. (Cyn 1 Ebrill 2014 yn gymwys i reoliadau Amddiffyniad Trosiannol). | Peidio â chymhwyso'r disgresiwn |
| 5 | Rheoliad 22 (8)(b), Rheoliadau Pensiynau<br><br>**Cyfuno Buddion: Aelod Gohiriedig yn dod yn Aelod Gweithredol** | Caniatáu i aelod gohiriedig sydd eto'n dod yn aelod gweithredol gael cyfnod hirach na 12 mis i ddewis peidio â chael y buddion yn ei gyfrif pensiwn aelod gohiriedig ar ôl 31 Mawrth 2014 wedi'u cyfuno gyda'r buddion yn ei gyfrif pensiwn aelod gweithredol. | Peidio â chymhwyso'r disgresiwn |
| 6 | Rheoliad 30(6), Rheoliadau Pensiynau a rheoliadau trosiannol TP11(2)<br><br>**Ymddeoliad Hyblyg** | Ymddeoliad Hyblyg – cytuno ar weithwyr 55 oed neu hŷn i leihau ei oriau gwaith neu raddfa fel y gall dderbyn ei holl bensiwn ymddeoliad neu ran ohono tra mae'n dal yn gyflogedig | Gellir cymhwyso'r disgresiwn pan fo'r Gwasanaeth o'r farn ei bod yn briodol caniatáu ymddeoliad hyblyg ac mae'n gost-niwtral. Nid yw'r disgresiwn hwn yn rhoi hawl i ymddeoliad hyblyg. |

| Rhif | Rheoliad | Disgresiwn | Polisi |
|---|---|---|---|
| 7 | Rheoliad 30 (8), Rheoliadau Pensiynau<br><br>**Hepgor Gostyngiad Actiwaraidd i Bensiynau** | Cytuno i hepgor, yn llwyr neu'n rhannol, unrhyw ostyngiad a fyddai fel arall yn cael ei wneud ar dalu pensiwn yn gynnar i weithiwr 55 oed sy'n ymddiswyddo o'i gyflogaeth bensiynadwy neu i'r pensiwn a delir i weithiwr sy'n cael cymryd ymddeoliad hyblyg o dan Reoliad 30(6) o'r Rheoliadau Pensiynau | I'w gymhwyso yn yr amgylchiadau canlynol:<br>(1) Ni fyddai cost i'r Gwasanaeth;<br>(2) Mewn achosion o galedi eithriadol neu ar sail dosturiol eithriadol; |
| 8 | Rheoliad 31, Rheoliadau Pensiynau<br><br>**Dyfarnu Pensiwn Ychwanegol** | Dyfarnu pensiwn ychwanegol i:<br>(1) aelod gweithredol; neu<br>(2) cyn-aelod gweithredol a gafodd ei ddiswyddo oherwydd dileu swydd neu effeithlonrwydd busnes, neu y cafodd ei gyflogaeth ei therfynu drwy gydsyniad y ddwy ochr ar sail effeithlonrwydd busnes | Peidio â chymhwyso'r disgresiwn |
| 9 | Rheoliad 37 (3) a (4) Rheoliadau Pensiynau<br><br>**Cyflogaeth â thâl** | Pan fo person sy'n derbyn pensiwn ar sail afiechyd haen 3 wedi dechrau cyflogaeth â thâl.<br><br>Boed i adfer unrhyw bensiwn haen 3 a ordalwyd yn dilyn dechrau cyflogaeth â thâl. | Adolygu'r buddion afiechyd yn unol â'r rheoliadau.<br><br>Cymhwyso'r disgresiwn. |

| Rhif | Rheoliad | Disgresiwn | Polisi |
|---|---|---|---|
| 10 | Rheoliad 91, Rheoliadau Pensiynau<br><br>**Tystysgrifau Fforffediad** | Gwneud cais i'r Ysgrifennydd Gwladol roi tystysgrif fforffediad.<br><br>Sylwer:<br>Gellir gwneud cais am dystysgrif fforffediad pan fo aelod wedi'i erlyn o drosedd a gyflawnwyd mewn cysylltiad â chyflogaeth yr aelod ac os dyna pam mae'r aelod wedi gadael y gyflogaeth honno. Tystysgrif fforffediad yw tystysgrif a roddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol fod y drosedd yn niweidiol iawn i'r Wladwriaeth neu'n debygol o arwain at golli hyder yn ddifrifol yn y gwasanaeth cyhoeddus. | Caiff y disgresiwn ei gymhwyso mewn amgylchiadau arferol. |
| 11 | Rheoliad 93, Rheoliadau Pensiynau<br><br>**Adfer Arian sy'n ddyledus o ganlyniad i Gamymddwyn** | Adfer arian sy'n ddyledus i'r cyn-weithiwr pan fo person wedi gadael y gyflogaeth o ganlyniad i gamymddygiad difrifol neu weithred neu hepgoriad troseddol, esgeulus neu dwyllodrus mewn perthynas â'r gyflogaeth honno ac sydd arno arian i'r cyflogwr yn deillio o'r camymddygiad, gweithred neu hepgoriad hwnnw. Sylwer: Os oes anghydfod ynglŷn â'r swm sy'n ddyledus, ni chaiff y Gwasanaeth ond adfer yr arian o fuddion pensiwn y gweithiwr o dan orchymyn llys neu ddyfarniad cymrodeddwr. | Cymhwyso'r disgresiwn |

| Rhif | Rheoliad | Disgresiwn | Polisi |
|---|---|---|---|
| 12 | Rheoliad 100, Rheoliadau Pensiynau<br><br>**Mewn-drosglwyddo Hawliau Pensiwn** | Caniatáu i berson gael mwy na 12 mis yn dechrau ar y dyddiad pryd daeth yn aelod gweithredol mewn cyflogaeth i ofyn am dderbyn gwerth trosglwyddo ar gyfer rhai hawliau pensiwn a gronnwyd. | Cymhwyso'r disgresiwn hwn yn ddibynnol ar y canlynol:<br>(1) mae'r aelod o'r cynllun wedi gofyn i'r broses ddechrau o fewn y terfyn amser o ddeuddeg mis, neu<br>(2) pan fo rheswm i gredu na fyddai'r unigolyn wedi gwybod bod angen cymryd camau i ddechrau'r posibilrwydd o fewn-drosglwyddo hawliau a buddion pensiwn blaenorol o fewn y terfyn amser o ddeuddeg mis, ac mae ffeiliau Adnoddau Dynol a/neu bensiwn yn cefnogi hyn. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caniateir cyfnod hirach cyhyd ag nad oes rheswm hysbys na siawns y bydd y gweithiwr yn cael mynediad at ei hawliau pensiwn o fewn y 12 mis nesaf. |

| Rhif | Rheoliad | Disgresiwn | Polisi |
|---|---|---|---|
| 13 | Atodlen 2, Rheoliadau Trosiannol paragraff 1 (2) ac 1 (1c)<br><br>**Rheol 85 mlynedd**<br><br>TPSch 2, para 1(2) & 1(1)(f) & R60 | Boed i 'ysgogi' y rheol 85 mlynedd i aelod sy'n tynnu buddion yn wirfoddol ar neu ar ôl 55 oed a chyn 60 oed (heblaw ar sail ymddeoliad hyblyg)<br><br>Boed i 'ysgogi' y rheol 85 mlynedd i aelod-bensiynwr sydd â buddion gohiriedig ac yn tynnu buddion yn wirfoddol ar neu ar ôl 55 oed a chyn 60 oed<br><br>Boed i 'ysgogi' y rheol 85 mlynedd ar gyfer aelod-gynghorydd sydd â buddion gohiriedig ac sy'n tynnu buddion yn wirfoddol ar neu ar ôl 55 oed a chyn 60 oed | Caiff y disgresiwn hwn ei gymhwyso yn amodol ar y canlynol:<br><br>Yr unig bryd y bydd y rheol 85 mlynedd yn cael ei ysgogi cyn 60 oed yw os nad oes cost ychwanegol i'r Gwasanaeth |
| 14 | Atodlen 2, Rheoliadau Trosiannol paragraff 1 (2) a 2 (2)<br><br>**Talu Pensiwn yn Gynnar yn achosion Aelodau ag Amddiffyniad Trosiannol** | Cytuno y dylai'r amddiffyniadau trosiannol sydd ym Mharagraff 1(3) o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Trosiannol fod yn gymwys. Mae hyn yn effeithio ar aelodau sydd ag amddiffyniad trosiannol ac sy'n dewis ymddeol rhwng 55 a 60 oed. Mae'r amddiffyniadau trosiannol yn cynnig amddiffyniad cyflawn neu rannol rhag gostyngiadau actiwaraidd gan ddibynnu ar yr amgylchiadau. | Peidio â chymhwyso'r disgresiwn |

| Rhif | Rheoliad | Disgresiwn | Polisi |
|---|---|---|---|
| 15 | B30 (5) Rheoliadau Trosiannol paragraff 2 (1)<br>B30A(5)<br><br>**Hepgor Gostyngiadau Actiwaraidd**<br><br>31 (5) a Rheoliadau Trosiannol paragraff 2 (1) | Boed i hepgor, ar sail dosturiol, y gostyngiad actiwaraidd a gaiff ei gymhwyso i'r buddion gohiriedig a delir o dan B30 (aelod)<br><br>Boed i hepgor, ar sail dosturiol, y gostyngiad actiwaraidd a gaiff ei gymhwyso i fuddion a delir yn gynnar o ran B30A (aelod-bensiynwr â buddion gohiriedig)<br><br>Boed i hepgor, ar sail dosturiol, y gostyngiad actiwaraidd a gaiff ei gymhwyso i fuddion a delir yn gynnar (cynghorwyr) | Caiff y disgresiwn hwn ei gymhwyso ymhob achos a adroddir yn ôl-weithredol i'r Awdurdod Tân ac Achub. |
| 16 | Atodlen 2, Rheoliadau Trosiannol paragraff 2 (3)<br><br>**Hepgor Gostyngiadau Actiwaraidd i bensiynau yn achosion Aelodau ag Amddiffyniad Trosiannol** | Boed i hepgor, ar sail dosturio, y gostyngiad actiwaraidd a gaiff ei gymhwyso i fuddion aelodaeth cyn 1 Ebrill 2014 pan fo'r Cyflogwr wedi 'ysgogi' y Rheol 85 Mlynedd i aelod sy'n tynnu buddion yn wirfoddol ar neu ar ôl 55 oed a chyn 60 oed. | Caiff y disgresiwn hwn ei gymhwyso ymhob achos a adroddir yn ôl-weithredol i'r Awdurdod Tân ac Achub. |

| Rhif | Rheoliad | Disgresiwn | Polisi |
|---|---|---|---|
| 17 | Atodlen 2, Rheoliadau Trosiannol paragraff 10 (6)<br><br>**Ymestyn y 12 mis o gyfnod dewis** | Boed i ymestyn y cyfnod dewis 12 mis i aelod (na ddaeth yn aelod o Gynllun 2014 yn rhinwedd rheoliad 5 (1)) i ddewis y dylai buddion gohiriedig cyn 1 Ebrill 2014 gael eu cyfuno â chyflogaeth newydd. | Caiff y disgresiwn hwn ei gymhwyso ymhob achos a adroddir yn ôl-weithredol i'r Awdurdod Tân ac Achub. |
| 18 | Rheoliadau Trosiannol paragraff 4<br><br>Rheoliad 31 (2), Rheoliadau Buddion<br><br>**Talu buddion gohiriedig yn gynnar** | Polisi mewn perthynas ag aelodau cynlluniau a derfynodd eu haelodaeth weithredol ar neu ar ôl 01/04/1998 a chyn 01/04/2008.<br><br>Caniatáu cais i dalu buddion gohiriedig yn gynnar ar neu ar ôl 50 oed ar sail dosturiol<br><br>Caniatáu cais i dalu buddion gohiriedig yn gynnar ar neu ar ôl 50 oed a chyn 55 oed. | Caiff y disgresiwn hwn ei gymhwyso ymhob achos a adroddir yn ôl-weithredol i'r Awdurdod Tân ac Achub. |

*This document is available in English*

**Eitem ar yr Agenda 12**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **20 Rhagfyr 2021** |
| Swyddog Arweiniol | **Clerc** |
| Swyddog Cyswllt | **Gareth Owens (01745 535286)** |
| Pwnc | **Adolygu Cyfansoddiad yr Awdurdod Tân ac Achub** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Cymeradwyo'r Polisi Cyfarfodydd mewn Lleoliadau Lluosog a'r Cyfansoddiad diwygiedig.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Yn ei Gyfarfod Blynyddol, cytunodd yr Awdurdod i sefydlu gweithgor bach i adolygu'r Cyfansoddiad a llunio Polisi Cyfarfodydd mewn Lleoliadau Lluosog er mwyn cydymffurfio â dyletswyddau newydd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("y Ddeddf") ac i adlewyrchu newidiadau i'r modd y mae'r Awdurdod yn gweithredu oherwydd y pandemig.

3 Roedd y gweithgor yn cynnwys Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod, Cadeiryddion y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Safonau a'r Cyng. Meirick Lloyd Davies. Cyfarfu'r gweithgor ddwywaith dros yr haf, ac mae'n argymell newidiadau i'r Cyfansoddiad a bod y polisi Cyfarfodydd mewn Lleoliadau Lluosog yn cael i gymeradwyo.

## ARGYMHELLION

4 Argymhellir y canlynol:
   (i) cymeradwyo'r Polisi Cyfarfodydd mewn Lleoliadau Lluosog a'r Cyfansoddiad diwygiedig;
   (ii) diolch i'r gweithgor am eu gwaith.

## CEFNDIR

5 Nid oes rheidrwydd ar yr Awdurdod i gyhoeddi Cyfansoddiad ond mae'n gwneud hynny er mwyn cael mwy o dryloywder ac fel mater o arfer dda. Mae'r ddogfen yn cynnwys cylch gorchwyl pwyllgorau, rheolau gweithdrefn ar gyfer pethau fel cyfarfodydd a chontractau, ynghyd â gwahanol brotocolau a chodau moesegol. Mae ei derminoleg wedi'i wreiddio mewn presenoldeb corfforol mewn cyfarfodydd yn swyddfeydd yr Awdurdod, e.e. ei gwneud yn ofynnol i ysgrifennu cynigion a'u rhoi yn llaw'r Cadeirydd, neu gofnodi datganiadau o fuddiant mewn llyfr sy'n agored i'w archwilio. Felly, roedd angen diweddaru'r iaith i adlewyrchu ffyrdd modern o weithio.

6 Hefyd, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod wneud a chyhoeddi trefniadau ar gyfer sicrhau bod cyfarfodydd yn gallu cael eu cynnal drwy ddulliau i alluogi pobl nad ydynt yn yr un lle i fynychu. Hynny yw, cyhoeddi trefniadau ar gyfer cyfarfodydd sydd naill ai'n gwbl o bell neu'n rhai pan fo rhai pobl yn bresennol yn gorfforol (o'r enw "cyfarfodydd hybrid"). Gelwir y trefniadau hynny'n Bolisi Cyfarfodydd mewn Lleoliadau Lluosog.

**GWYBODAETH**

**Cyfarfodydd y Gweithgor**

7 Cyfarfu'r gweithgor ddwywaith dros yr haf, a rhwng y cyfarfodydd, bu'n adolygu dogfennau ac yn rhoi sylwadau arnynt.

8 Yn ei gyfarfod cyntaf, bu'r gweithgor yn edrych sut caiff cyfarfodydd eu cynnal o bell neu fel cyfarfodydd hybrid, fel eu bod yn hygyrch ac yn gwneud synnwyr i aelodau o'r cyhoedd. Cytunwyd ar gyfres o egwyddorion i arwain y modd y dylai cyfarfodydd gael eu cynnal. Yn gryno, roeddent wedi cytuno ar y canlynol:

(i) dylai cyfarfodydd yn y tymor hir gael eu cynnal fel cyfarfodydd hybrid pan fo'n ddiogel ac yn bosibl gwneud hynny;
(ii) gan nad yw'r dechnoleg sydd ei hangen i gynnal cyfarfodydd hybrid wedi'i gosod ym Mhencadlys yr Awdurdod eto, byddai cyfarfodydd yn parhau i gael eu cynnal o bell am y tro;
(iii) dylai swyddog gysylltu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a'r awdurdodau cyfansoddol eraill i weld a oes ganddynt y dechnoleg ar gyfer cyfarfodydd hybrid, ac a allai'r Awdurdod ei defnyddio;
(iv) dylid ymgynghori ag aelodau newydd yr Awdurdod ar ôl yr etholiadau ym mis Mai 2022 ynghylch yr amser a'r fformat sydd orau ganddynt ar gyfer cyfarfodydd;
(v) materion ymarferol megis sut i reoli dulliau pleidleisio, pwy fyddai'n cael ei drin fel ei fod yn bresennol mewn cyfarfodydd, a defnyddio'r botwm sgwrsio;

Hefyd, gofynnodd y gweithgor i'r Clerc baratoi opsiynau ar gyfer sut y gallai'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd a chymryd rhan ynddynt.

9 Yn ei ail gyfarfod, bu'r gweithgor yn adolygu'r opsiynau ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd. Bu hefyd yn edrych ar y Cyfansoddiad, gan gytuno i'w ddiwygio er mwyn:

(i) moderneiddio'r iaith, e.e. tynnu cyfeiriadau sy'n awgrymu neu'n ei gwneud yn ofynnol i fod yn bresennol yn gorfforol;
(ii) diweddaru cyfeiriadau at ddeddfwriaeth;
(iii) ymgorffori newid gweinyddol sy'n ofynnol o dan y Ddeddf, e.e. y gofyniad i gyhoeddi Cofnod o Benderfyniad cyn pen 7 diwrnod ar ôl i gyfarfod gael ei gynnal;

(iv) mân newidiadau i gael mwy o eglurder, e.e. rhestru'r holl swyddogaethau y mae'n rhaid eu cadw i'r Awdurdod Llawn, gan egluro rôl y Prif Swyddog Tân mewn perthynas â'r gronfa bensiwn.

Yn dilyn y cyfarfod, bu'r gweithgor yn ystyried ac yn rhoi sylwadau ar ddogfennau a oedd wedi cael eu llunio/diwygio yn unol â'i benderfyniadau.

10 Mae'r Polisi Cyfarfodydd mewn Lleoliadau Lluosog yn Atodiad 1. Mae rhestr o'r newidiadau a wnaed i'r Cyfansoddiad yn Atodiad 2. Mae fersiynau ar wahân o'r Cyfansoddiad wedi'u hatodi – un yn dangos y newidiadau ac un copi gyda'r holl newidiadau wedi eu derbyn.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Moderneiddio'r Cyfansoddiad a'r ffordd y mae'r Awdurdod yn gweithredu |
| Cyllideb | Dim cost ychwanegol yn uwch na'r gyllideb bresennol a ddyrannwyd |
| Cyfreithiol | Mae rhai newidiadau i'r Cyfansoddiad yn ofynnol dan y Ddeddf newydd |
| Staffio | Nid ystyrir ei fod yn berthnasol |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Caiff pob agwedd ei hystyried fel mater o drefn |
| Risgiau | Nid ystyrir ei fod yn berthnasol |

***Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru***
***Polisi Cyfarfodydd***


1.0 Rhagarweiniad

2.0 Y Cyd-destun Polisi a Deddfwriaethol

3.0 Y Fformat ar gyfer Cyfarfodydd

4.0 Presenoldeb Aelodau, a Chworwm

5.0 Cadeirio Cyfarfodydd a phleidleisio

6.0 Y cyhoedd yn mynychu a chymryd rhan

7.0 Gwybodaeth Gyfrinachol neu Eithriedig

8.0 Ymddygiad ac Ymarweddiad

9.0 Tarfu ar Gyfarfodydd

10.0 Hysbysiadau, agendâu ac adroddiadau

11.0 Cofnodi Penderfyniadau, a Chofnodion

12.0 Hyfforddiant, cefnogaeth a chymorth technegol

## 1.0 Rhagarweiniad

1.1 Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ("yr Awdurdod") wedi llunio'r polisi hwn ynglŷn â sut y bydd yn cynnal ei gyfarfodydd er mwyn esbonio'r modd y mae'n cynnal cyfarfodydd o'i aelodau, a sut caiff y cyhoedd eu gwylio a/neu gymryd rhan ynddynt.

1.2 Mae'r polisi hwn yn gymwys i gyfarfodydd yr Awdurdod, ei bwyllgorau ac unrhyw baneli sy'n cynnwys cynghorwyr neu aelodau cyfetholedig a drefnir yn unol â Deddfau Llywodraeth Leol 1972 a 2000. Nid yw'n gymwys i gyfarfodydd gweithio mewnol rhwng gweithwyr yr Awdurdod nac i gyfarfodydd busnes y gallent eu cynnal gyda chynghorwyr o bryd i'w gilydd.

## 2.0 Y Cyd-destun Polisi a Deddfwriaethol

2.1 Mae'r Awdurdod yn cynnal cyfarfodydd o'i gynghorwyr yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac, yn achos y Pwyllgor Safonau, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000, ynghyd ag is-ddeddfwriaeth o dan bob statud.

2.2 Caiff y polisi hwn ei lunio yn unol â dyletswydd yr Awdurdod o dan adran 47 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

2.3 O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r Awdurdod wedi ystyried sut mae'r polisi hwn yn cyfrannu at y 7 nod llesiant a'r 5 ffordd o weithio.

| | |
|---|---|
| Tymor hir | Mae'r Awdurdod yn cwmpasu ardal ddaearyddol fawr, ac mae'n cydnabod yr allyriadau CO2 sy'n gysylltiedig â mynychu cyfarfodydd. Bydd yn ceisio lleihau'r allyriadau hynny drwy deithio pan fo raid yn unig. |
| Ataliol | Mae'r Awdurdod yn llywodraethu'r Gwasanaeth Tân ac Achub, sydd â chyfrifoldebau ataliol allweddol. Mae sicrhau bod ei gyfarfodydd yn effeithiol a thryloyw yn rhoi cyfeiriad ac atebolrwydd democrataidd i'r modd y caiff y Gwasanaeth ei reoli. |
| Cynnwys | Rhaid i holl gyfarfodydd yr Awdurdod a'i bwyllgorau fod yn agored i'r cyhoedd oni bai eu bod yn ystyried amrediad bach o bynciau sydd wedi'u gosod mewn statud. Mae cynnal cyfarfodydd yn rhithiol neu yn hybrid, a rhoi recordiadau o gyfarfodydd ar y wefan, yn hybu tryloywder ac yn galluogi mwy o bobl i weld cyfarfodydd yn fwy rhwydd. |
| Integreiddio | Dim effaith |

| | |
|---|---|
| Cydweithio | Mae hwyluso cyfranogiad cynghorwyr etholedig ym musnes yr Awdurdod yn gymorth i hwyluso integreiddiad rhwng yr Awdurdod a'r 8 Chyngor Sir/Bwrdeistref Sirol y maent yn dod ohonynt. |
| Cymru lewyrchus | Dim effaith. |
| Cymru gydnerth | Newid arferion gwaith a datblygu sgiliau ar gyfer gwasanaethau a chymunedau mwy cydnerth wrth i'r boblogaeth a'r hinsawdd newid yn y tymor hir. |
| Cymru iachach | Dim effaith. |
| Cymru fwy cyfartal | Mae cyfarfodydd ar-lein neu recordiadau yn galluogi mwy o bobl i weld cyfarfodydd yn fwy rhwydd, ni waeth a ydynt yn gallu mynychu'n bersonol ai peidio. |
| Cymru o gymunedau cydlynol | Mae galluogi mynediad a chyfranogiad mewn strwythurau penderfyniadau democrataidd yn gwella cydlynoldeb ein cymunedau. |
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Sicrhau bod pob cyfarfod yn cael ei ddarparu'n ddwyieithog. |
| Cymru sy'n ymatebol yn fyd-eang | Mae mwy o wasanaethau digidol yn lleihau'r angen i deithio ac yn lleihau'r angen am adnoddau fel tanwydd a phapur, gan ostwng allyriadau CO2 a'r defnydd o adnoddau. |

**3.0 Y Fformat ar gyfer Cyfarfodydd**

3.1 Gall cyfarfodydd gael nifer o fformatau, yn seiliedig ar rai neu'r cyfan o'r cyfranogwyr a fydd yno'n bresennol. I ddibenion y polisi hwn, cânt eu diffinio fel

- Cyfarfodydd corfforol – mae'r holl gyfranogwyr yn bresennol yn gorfforol yn yr un ystafell, a rhaid iddynt fod yno'n bresennol
- Cyfarfodydd hybrid - mae rhai cyfranogwyr yn bresennol yn gorfforol yn yr un ystafell ond caiff eraill ymuno â'r cyfarfod gan ddefnyddio meddalwedd cynadledda o bell (fideo a/neu'r ffôn), neu bydd eraill yn gwneud hynny
- Cyfarfodydd o bell – mae'r holl gyfranogwyr yn ymuno â'r cyfarfod gan ddefnyddio meddalwedd cynadledda o bell (fideo neu ffôn)

3.2 Pan gaiff Adran 47 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ei gweithredu, ni fydd cyfarfodydd corfforol yn cael eu caniatáu mwyach. Bydd raid i'r Awdurdod gynnal naill ai cyfarfodydd hybrid neu gyfarfodydd o bell.

3.3 Caiff cyfarfodydd yr Awdurdod a'i Bwyllgorau (Panel Gweithredol, Pwyllgor Archwilio a Phwyllgor Safonau), ynghyd â'r Bwrdd Pensiwn Lleol, eu cynnal fel cyfarfodydd o bell yn y tymor byr, o bosibl tan y Cyfarfod Blynyddol yn 2022. Bydd yr Awdurdod yn dechrau ar gyfarfodydd hybrid pan fydd yn ddiogel yn gorfforol i wneud hynny a phan fo gan yr Awdurdod y dechnoleg i sicrhau eu bod yn gweithio'n foddhaol. Mae'r Awdurdod wrthi'n ymchwilio i'r dechnoleg a'r adnoddau sydd eu hangen i gynnal cyfarfodydd hybrid naill ai yn ei bencadlys ei hun neu mewn lleoliad arall.

3.4 Mae tymor cyfredol yr Awdurdod hwn yn dod i ben ym mis Mai 2022, pan gaiff aelodau newydd eu penodi yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol. Bydd yr Awdurdod yn ymgynghori â'r aelodau newydd ynghylch y fformat sydd orau ac amseriad y cyfarfodydd er mwyn sicrhau bod ei gyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn modd ac ar adeg sy'n gweddu orau iddynt.

3.5 Ar hyn o bryd, mae'r Awdurdod yn defnyddio Zoom fel ei feddalwedd cynadledda o bell. Mae hyn yn golygu bod modd cymryd rhan drwy fideo a'r ffôn. Mae gan y Prif Swyddog Tân ddisgresiwn i newid y meddalwedd fel sydd fwyaf addas i'r Awdurdod.

3.6 Caiff cyfarfodydd eraill sy'n cynnwys aelodau, ond nad ydynt yn gyfarfodydd ffurfiol o'r Awdurdod na'i bwyllgorau, eu cynnal fel cyfarfodydd corfforol, hybrid neu o bell, yn dibynnu ar y fformat sy'n gweddu orau i natur y busnes dan sylw. Er enghraifft, caiff gweithgorau neu drafodaethau am faterion sensitif eu cynnal fel cyfarfodydd corfforol os ystyrir mai dyma sy'n gweddu orau i anghenion y cyfarfod penodol hwnnw.

## 4.0 Presenoldeb Aelodau, a Chworwm

4.1 Pan fo cyfarfod yn cael ei gynnal yn bersonol yn llwyr, mae'n hawdd dweud pwy sy'n bresennol fel bod modd cofnodi pwy sy'n mynychu'r cyfarfod.

4.2 Pan fo cyfarfod yn cael ei gynnal yn rhannol ar-lein, ystyrir bod aelodau'n bresennol os ydynt wedi ymuno â'r cyfarfod o bell/hybrid a'u camera ymlaen. Weithiau, mewn achos o gysylltedd gwael, rhaid i gyfranogwyr ddiffodd eu camera er mwyn gwella'r sain neu hyd yn oed ddeialu i mewn i'r cyfarfod gan ddefnyddio dolen ffôn. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd y Cadeirydd a'r Clerc yn penderfynu a ddylid trin person fel pe bai'n bresennol neu beidio.

4.3 Mewn cyfarfodydd corfforol, mae fel arfer yn bosib, yn ôl cynllun yr ystafell, ddweud pa rôl y mae person yn ei gyflawni. Nid yw hynny'n bosibl ar-lein, felly caiff cynghorwyr eu hadnabod drwy ddefnyddio'r rhagddodiad "Cyng." cyn eu henw a bydd gan y swyddogion deitl eu swydd ar ôl eu henw. Bydd cynghorwyr sydd â hawl i bleidleisio yn cael eu hadnabod gyda marc arall wrth eu henw fel ei bod yn glir pwy sy'n gallu pleidleisio neu beidio.

4.4 Pan fo angen i aelod ddatgan buddiant personol a rhagfarnol mewn eitem, mae cod ymddygiad y cynghorwyr yn ei gwneud yn ofynnol iddo adael y cyfarfod tra bydd yr eitem honno'n cael ei thrafod. Bydd y modd o fodloni'r gofyniad hwn yn dibynnu ar a yw'r aelod yn bresennol yn gorfforol ynteu'n rhithiol:

1. Rhaid i aelod sy'n bresennol yn gorfforol adael yr ystafell lle mae'r cyfarfod yn cael ei gynnal yn ystod yr eitem honno – nid yw symud i ran arall o'r ystafell neu aros yn dawel yn ddigonol; a
2. Bydd aelod sy'n mynychu'n rhithiol (naill ai mewn cyfarfod o bell neu gyfarfod hybrid) yn cael ei symud i lobi rithiol yn ystod yr eitem honno, lle bydd yn methu gweld na chlywed y drafodaeth am yr eitem honno.

4.5 Yn ystod cyfarfod o bell neu gyfarfod hybrid, gallai un person neu fwy brofi anawsterau cysylltu sy'n golygu nad yw'n gallu clywed neu ei fod hyd yn oed "syrthio allan" o'r cyfarfod yn gyfan gwbl. Os bydd cworwm o hyd yn y cyfarfod, gall y Cadeirydd dewis naill ai barhau gyda'r cyfarfod, aros am gyfnod i'w galluogi i ailgysylltu, neu ohirio'r cyfarfod tan amser/dyddiad arall.

## 5.0 Cadeirio Cyfarfodydd a phleidleisio

5.1 Mae cadeirio cyfarfod sydd mewn lleoliadau lluosog yn wahanol iawn i gadeirio cyfarfod wyneb yn wyneb. Bydd angen i Gadeiryddion gael cymorth i gyflawni eu rôl mewn ffyrdd penodol. Bydd gwaith y Cadeirydd yn arbennig o heriol pan fo cyfarfod yn cael ei gynnal mewn lle corfforol gyda dim ond ambell gyfranogwr yn ymuno o bell. Gweler hefyd yr adran isod ar Gefnogaeth a Chymorth yn ystod y cyfarfod.

5.2 Ymhob cyfarfod, bydd y Cadeirydd, naill ai'n bersonol neu drwy'r swyddogion sy'n cefnogi'r cyfarfod, yn:

- sicrhau bod gwylwyr o blith y cyhoedd yn cael eu croesawu a bod y busnes yn cael ei esbonio mewn modd dealladwy, gan gynnwys gweithredu'r cyfarfod ei hun mewn lleoliadau lluosog;
- sicrhau cyn dechrau'r cyfarfod fod pawb yn gallu cael mynediad i'r cyfarfod, a bod pawb yn gallu gweld a chlywed ei gilydd (pan fo'r gyfraith yn gwneud hynny'n ofynnol ar gyfer cyfarfodydd penodol) neu glywed ei gilydd (ar gyfer cyfarfodydd ffurfiol eraill);
- esbonio bod cyfieithu ar y pryd ar gael, a bod croeso i gyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg;
- ar ddechrau'r cyfarfod, eu cyflwyno eu hunain, y pwyllgor, y swyddogion allweddol sy'n bresennol a chyfranogwyr eraill er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n gwylio neu'n gwrando ar ddarllediad yn ymwybodol o bwy yw pwy;
- atgoffa am drefniadau'r cyfarfod a'r polisïau, yn enwedig yn ymwneud ag ymddygiad ac ymarweddiad e.e. rhoi meicroffon ar fud pan na fyddwch yn siarad, sut i bleidleisio ac ati;
- sicrhau bod pawb yn cael cyfle teg i gymryd rhan yn y ddadl ni waeth a ydynt yn bresennol yn gorfforol, ar-lein neu'n deialu i mewn i'r cyfarfod;
- gwirio'n achlysurol yn ystod y cyfarfod nad oes neb wedi'i 'golli' oherwydd materion technegol,
- fframio'r cyfarfod drwy atgoffa beth yw pwrpas bob eitem ar yr agenda, ac os oes angen, rhoi crynodeb o'r penderfyniadau cyn unrhyw bleidlais;
- esbonio'r dull pleidleisio i'w fabwysiadu ar gyfer y cyfarfod, neu ar gyfer yr eitem benodol honno os yw'n wahanol (e.e. os gofynnir am bleidlais â chofnod)

5.3 Bydd y dull o bleidleisio mewn cyfarfodydd yn dibynnu ar fformat y cyfarfod, arwyddocâd y mater a drafodir, a lefel y ffurfioldeb. Yn aml, mae dangos dwylo yn anymarferol mewn cyfarfodydd o bell/cyfarfodydd hybrid oherwydd gall fod yn anodd gweld yr holl bobl sy'n cymryd rhan yn y cyfarfod os oes sawl sgrin o gyfranogwyr.

5.4 Caiff y Cadeirydd, yn ôl cyngor y Clerc neu'r Prif Swyddog Tân, ddefnyddio un o'r dulliau canlynol:

1) Cydsyniad cyffredinol – rhagdybir cytundeb yr aelodau oni bai eu bod yn nodi drwy'r botwm sgwrsio neu drwy ddweud eu bod yn dymuno pleidleisio yn erbyn neu ymatal ar gyfer eitem
2) Galw enwau – gofynnir i bob cynghorydd yn ei dro sut mae'n dymuno pleidleisio

3) Pleidleisiau electronig - gallai'r datrysiad fideo-gynadledda gynnig opsiwn pleidleisio a fydd yn mynd ati'n awtomatig i gyfrif y pleidleisiau o blaid ac yn erbyn cynnig (mae'r botwm hwn ar gael yn Zoom), ac mae rhai botymau pleidleisio'n cyflawni swyddogaeth debyg mewn rhai ystafelloedd cyfarfod (er enghraifft siambr y Cyngor yn swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)

5.5 Pan fo rhai cynghorwyr yn ymuno dros y ffôn, efallai y bydd raid i'r cadeirydd ofyn iddynt yn unigol sut maent yn dymuno pleidleisio oherwydd efallai na fydd dulliau eraill yn addas.

5.6 Bydd y Clerc yn rhoi gwybod i'r Cadeirydd beth yw canlyniad unrhyw bleidlais.

## 6.0 Y cyhoedd yn mynychu ac yn cymryd rhan

6.1 Mae holl gyfarfodydd yr Awdurdod a'i bwyllgorau yn agored i'r cyhoedd, ac eithrio pan ydynt yn ystyried amrediad bach o eitemau a nodwyd mewn statud (gweler yr adran Gwybodaeth Gyfrinachol neu Eithriedig isod). Pan gynhelir cyfarfodydd hybrid, caiff dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod eu cyhoeddi a bydd gan y cyhoedd hawl i fynychu'r cyfarfod yn bersonol. Bydd y cod mynediad ar gyfer y cyfarfod ar gael hefyd.

6.2 Caiff aelodau'r cyhoedd siarad yng nghyfarfodydd yr Awdurdod Llawn am faterion sy'n effeithio arnynt. Bydd y rheolau canlynol yn gymwys ar gyfer aelodau'r cyhoedd sy'n cymryd rhan mewn cyfarfodydd:

i. Caiff unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n byw, yn gweithio, yn gwirfoddoli neu'n rhedeg busnes/sefydliad yng Ngogledd Cymru gymryd rhan yng nghyfarfodydd yr Awdurdod Llawn yn unol â'r rheolau hyn;
ii. Caiff aelod o'r cyhoedd, drwy roi'r cyfnod rhybudd angenrheidiol, gyflwyno:
    a. ei fwriad i wneud sylwadau; neu
    b. hyd at 3 chwestiwn (y cyfanswm heb fod yn gysylltiedig â nifer yr eitemau ar yr agenda y mae'r cwestiynau i'w gofyn amdanynt)

    mewn perthynas ag eitem neu eitemau ar agenda cyfarfod i ddod o'r Awdurdod Llawn. Wrth gyflwyno rhybudd, rhaid i'r aelod o'r cyhoedd roi holl destun y sylwadau i'w gwneud neu'r cwestiwn/cwestiynau i'w gofyn

iii. Mae'r cyfnod rhybudd angenrheidiol wedi'i nodi isod mewn diwrnodau gwaith clir cyn y cyfarfod, heb gyfrif y diwrnod pryd cyflwynir y sylwadau/cwestiynau na diwrnod y cyfarfod ei hun.
    a. ar gyfer sylwadau, y rhybudd angenrheidiol yw 5 diwrnod gwaith clir; a
    b. ar gyfer cwestiynau, y rhybudd angenrheidiol yw 2 ddiwrnod gwaith
iv. Caiff y Prif Swyddog Tân neu'r Clerc wrthod derbyn unrhyw sylwadau neu gwestiynau pan fo'r mater yn un o'r canlynol, neu'n ymddangos i fod yn un o'r canlynol
    a. anghysylltiedig â swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Awdurdod Tân
    b. difenwol o unrhyw berson
    c. gwacsaw neu flinderus neu ymosodol
    d. testun achosion cyfreithiol sy'n cael eu bygwth neu sy'n mynd ymlaen
    e. gofyn am ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig
    f. ymwneud â chwyn ffurfiol sydd eisoes wedi'i chyflwyno i'r Awdurdod
    g. ymwneud â chyflogaeth gyfredol neu flaenorol gweithiwr gyda'r Awdurdod
    h. cynnwys honiad yn erbyn, neu sylwadau am ymddygiad, Aelodau neu Swyddogion unigol;
v. Caiff aelod o'r cyhoedd sy'n gwneud sylwadau neu'n gofyn cwestiynau siarad am hyd at 3 munud i gyd (ni waeth sawl eitem ar yr agenda y mae'n dymuno gwneud sylwadau amdanynt neu sawl cwestiwn y mae'n dymuno ei ofyn). Caiff y Cadeirydd, gyda chytundeb y person hwnnw, drin cwestiwn fel be bai wedi'i ddarllen
vi. Caniateir uchafswm o 15 munud ymhob cyfarfod ar gyfer sylwadau a/neu gwestiynau. Mae gan y Cadeirydd ddisgresiwn i ymestyn y terfynau hyn
vii. I ymateb i sylw, caiff yr Awdurdod naill ai
    a. cyfeirio'r mater heb drafodaeth at y Prif Swyddog Tân i ymchwilio iddo ac adrodd yn ôl i'r Awdurdod neu i un o'i Bwyllgorau;
    b. ei ystyried os yw'n ymwneud ag eitem ar agenda cyfredol neu i ddod (ar yr adeg pryd caiff yr eitem honno ei hystyried); neu
    c. cofnodi'r sylw a pheidio â chymryd unrhyw gamau pellach.
viii. Pan fo un neu ragor o gwestiynau wedi cael eu gofyn, bydd y Cadeirydd yn rhoi ateb ar lafar yn y cyfarfod. Os nad yw'r sawl sy'n gofyn yno'n bresennol, caiff yr ateb ei roi yn ysgrifenedig.
ix. Pan fo'r Cadeirydd wedi ateb y cwestiwn, caiff y person ofyn un cwestiwn atodol ar gyfer pob ateb. Os yw person yn gofyn mwy nag 1 cwestiwn, caiff ofyn mwy nag 1 cwestiwn atodol ond rhaid i bob un fod ar gyfer ateb gwahanol.

x. Mae gan y Cadeirydd ddisgresiwn ynglŷn â sut i ddelio â sylwadau a/neu gwestiynau yn y cyfarfod, er mwyn sicrhau bod busnes y cyfarfod, gan gynnwys y sylwadau/cwestiynau, yn cael ei drin mewn modd effeithiol. Caiff y Cadeirydd roi ystyriaeth i unrhyw fater wrth wneud hynny ond bydd yn ystyried materion fel nifer y sylwadau/cwestiynau, yr angen i gyfuno sylwadau neu gwestiynau sy'n delio â'r un pwnc a phan fo'n berthnasol, y ffaith fod yr Awdurdod wedi rhoi sylw i bynciau tebyg yn ddiweddar.

6.3 Rhoddir recordiadau o gyfarfodydd ar wefan yr Awdurdod hefyd.

## 7.0 Gwybodaeth Gyfrinachol neu Eithriedig

7.1 Gellir cynnal cyfarfodydd yn llwyr neu'n rhannol yn breifat pan ydynt yn ystyried gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig. Rhaid i'r cyfarfod benderfynu symud i sesiwn breifat, a gallai, pan yw'n ystyried gwybodaeth eithriedig, benderfynu ystyried yr wybodaeth yn gyhoeddus ar yr amod na fyddai gwneud hynny'n torri rhwymedigaethau cyfreithiol yr Awdurdod (er enghraifft o dan ddeddfwriaeth diogelu data).

7.2 "Gwybodaeth gyfrinachol" yw
(a) gwybodaeth a roddir i'r cyngor gan un o adrannau'r Llywodraeth ar delerau (ym mha bynnag fodd y mynegir hwy) sy'n gwahardd datgelu'r wybodaeth i'r cyhoedd; a
(b) gwybodaeth y mae ei datgelu i'r cyhoedd wedi'i wahardd gan neu o dan unrhyw ddeddfiad neu gan orchymyn llys.

7.3 Mae "Gwybodaeth eithriedig" wedi'i diffinio yn Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd) ac mae'n cynnwys, er enghraifft, wybodaeth sy'n tueddu i adnabod unigolyn, neu'n ymwneud â materion ariannol unigolyn.

7.4 Pan fo gwybodaeth gyfrinachol wedi'i chynnwys o fewn agenda cyfarfod, ni chaiff ei chyhoeddi. Pan fo gwybodaeth eithriedig wedi'i chynnwys o fewn agenda, ni chaiff ei chyhoeddi oni bai fod y cyfarfod yn penderfynu ystyried y mater yn gyhoeddus, pryd bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod cymaint o wybodaeth â phosibl ar gael i'r cyhoedd heb dorri ei rwymedigaethau cyfreithiol.

7.5 Bydd y Prif Swyddog Tân a/neu'r Clerc yn penderfynu a yw gwybodaeth yn gyfrinachol neu'n eithriedig i ddiben penderfynu a yw am ei chyhoeddi o fewn agenda ynteu am ddarparu copïau i aelodau'r cyhoedd.

## 8.0 Ymddygiad ac Ymarweddiad

8.1 Oherwydd y ffordd y cânt eu cynnal, mae'n haws i sŵn allanol darfu ar gyfarfodydd rhithiol a hybrid nag ar gyfarfodydd corfforol. Er mwyn sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn drefnus a bod pawb yn gallu clywed yr hyn sy'n cael ei ddweud, gofynnir i'r holl gyfranogwyr gadw eu meicroffon yn fud hyd nes y bydd y cadeirydd yn galw arnynt i siarad.

8.2 Fel y crybwyllir uchod, gofynnir i aelodau sy'n cymryd rhan mewn cyfarfod gadw eu camerâu ymlaen, oni bai fod angen iddynt eu diffodd i wella ansawdd.

8.3 Mae'r meddalwedd fideo-gynadledda yn cynnwys botwm "sgwrsio". Os defnyddir y sgwrsio i wneud pwyntiau mewn dadl neu i ofyn cwestiynau, gall hyn darfu'n fawr ar rai eraill sy'n cymryd rhan yn y cyfarfod ac nid yw'r sylwadau/cwestiynau ar gael i unrhyw un sy'n bresennol yn gorfforol neu sy'n deialu i mewn i'r cyfarfod.

8.4 Felly, dyma'r unig adegau pryd y dylid defnyddio'r botwm sgwrsio:
1) pan ddefnyddir y dull cydsyniad cyffredinol, i nodi pleidlais yn erbyn neu ymataliad
2) i nodi ymddiheuriadau am gyrraedd cyfarfod yn hwyr neu am adael yn gynnar

8.5 Fodd bynnag, bydd y Clerc yn monitro'r botwm sgwrsio ac yn rhoi gwybod i'r Cadeirydd am unrhyw sylwadau a wneir yn y sgwrs, ac a oes rhywun wedi'i ddefnyddio i nodi pleidlais yn erbyn neu ymatal ynghylch cynnig.

8.6 Rhaid i unrhyw berson sy'n dymuno siarad mewn cyfarfod godi ei law i nodi ei fwriad. Bydd y Cadeirydd yn galw pobl i siarad yn y drefn o'i ddewis. Nid yw'n wastad yn hawdd gweld pan fo person sy'n cymryd rhan o bell yn codi ei law yn gorfforol felly rhaid defnyddio'r botwm "codi llaw" o fewn y meddalwedd fideo-gynadledda i nodi awydd i siarad. Bydd angen i unrhyw un sy'n deialu i mewn nodi ar lafar ei ddymuniad i siarad, gorau oll heb darfu ar siaradwr arall i wneud hynny.

## 9.0 Tarfu ar Gyfarfodydd

9.1 Mae rheolau gweithdrefn Cyfarfodydd yr Awdurdod yn cynnwys darpariaethau sy'n galluogi'r Cadeirydd i fynnu bod rhywun yn cael ei dynnu o gyfarfod am darfu. Yn achos rhywun sy'n mynychu cyfarfod drwy fideo-gynadledda, gwneir hyn drwy ei dynnu o'r cyfarfod. Yn achos rhywun sy'n bersonol yn gorfforol, bydd yn cael ei hebrwng o ystafell y cyfarfod. Hefyd, caiff y cadeirydd ohirio cyfarfod er mwyn caniatáu amser i'r tarfu ddod i ben.

9.2 Mae gan y Cadeirydd ddisgresiwn i ailddderbyn y person i gyfarfod os yw wedi'i fodloni na fydd y person yn tarfu mwy.

## 10.0 Hysbysiadau, agendâu, ac adroddiadau

10.1 Rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi'r dogfennau isod mewn perthynas â'r cyfarfodydd sy'n dod o dan y protocol hwn. Bydd y dogfennau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

1) hysbysiad cyhoeddus o'r cyfarfod (o adran 100A(6A ) Deddf Llywodraeth Leol 1972), sy'n gorfod cynnwys y canlynol:
    a. pan fo'r cyfarfod, neu'r rhan o gyfarfod, yn agored i'r cyhoedd ac yn cael ei gynnal drwy ddull o bell yn unig, manylion amser y cyfarfod a sut i gael mynediad ato;
    b. pan fo'r cyfarfod yn un hybrid neu gorfforol, manylion amser a lleoliad y cyfarfod a sut i gael mynediad ato;
    c. pan fo'r cyfarfod yn un hybrid neu gorfforol, manylion amser a lleoliad y cyfarfod a'r ffaith nad yw'n agored i'r cyhoedd;
    d. pan nad yw'r cyfarfod yn agored i'r cyhoedd a'i fod yn cael ei gynnal o bell yn unig, rhoi manylion amser y cyfarfod, a'r ffaith ei fod yn cael ei gynnal o bell yn unig ac nad yw'n agored i'r cyhoedd.
2) Copïau o agenda ac unrhyw adroddiad ar gyfer y cyfarfod, oni bai fod yr adroddiad yn debygol o gael ei ystyried pan nad yw'r cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.
3) Unrhyw bapurau cefndirol fel y diffinnir gan adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972, oni bai fod y Prif Swyddog Tân neu'r Clerc yn penderfynu nad yw'n rhesymol yn ymarferol i gyhoeddi dogfen sydd wedi'i chynnwys yn y rhestr yn electronig, pryd bydd raid i un copi o leiaf o'r ddogfen fod yn agored i'w harchwilio yn swyddfeydd yr Awdurdod.

10.2 Gellir rhoi hysbysiad cyhoeddus unrhyw bryd ond rhaid cyhoeddi'r agenda a'r adroddiadau o leiaf 3 diwrnod clir cyn y cyfarfod pryd byddant yn cael eu hystyried. Os ychwanegir eitem at agenda, rhaid i gopïau o'r eitem neu'r agenda diwygiedig a chopïau o unrhyw adroddiad ar gyfer y cyfarfod yn ymwneud â'r eitem honno gael eu cyhoeddi ar yr adeg pryd ychwanegir yr eitem at yr agenda.

10.3 Gellir ystyried adroddiad mewn cyfarfod os nad yw wedi cael ei gyhoeddi yn unol â'r gofynion hyn os, oherwydd amgylchiadau arbennig y mae'n rhaid eu nodi yn y cofnodion, y bydd cadeirydd y cyfarfod o'r farn y dylid ystyried yr eitem yn y cyfarfod fel mater o frys.

10.4 Pan nad yw adroddiad cyfan, neu ran o adroddiad, yn cael ei gyhoeddi oherwydd y caiff ei ystyried pan nad yw'r cyfarfod yn agored i'r cyhoedd, rhaid nodi "Ddim i'w gyhoeddi" arno, a rhaid cynnwys y paragraff perthnasol o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, sef pryd mae'r Awdurdod yn debygol o eithrio'r cyhoedd yn ystod yr eitem y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.

10.5 Os na fydd cyfarfod yn cael ei gynnal o bell, rhaid darparu, ar gyfer aelodau o'r cyhoedd sy'n bresennol yn y cyfarfod, nifer resymol o gopïau o agenda ac adroddiadau'r cyfarfod ar gyfer y rhannau o'r cyfarfod a fydd yn cael eu cynnal yn gyhoeddus. Caiff copïau electronig o'r agenda a'r adroddiadau a gaiff eu hystyried yn gyhoeddus eu hanfon at unrhyw bapur newydd sy'n gofyn amdanynt.

## 11.0 Cofnodi Penderfyniadau, a Chofnodion

11.1 Ar ôl cyfarfod y mae'r protocol hwn yn ymwneud ag ef, rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi'r dogfennau isod. Bydd y dogfennau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

1) cyn pen saith diwrnod gwaith ar ôl y cyfarfod, bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi nodyn yn electronig yn datgan—
    i. enwau'r aelodau a fynychodd y cyfarfod, ac unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb;
    ii. unrhyw ddatganiadau buddiant;
    iii. unrhyw benderfyniad a wnaed yn y cyfarfod, gan gynnwys canlyniadau unrhyw bleidleisiau, ond gan eithrio unrhyw beth sy'n ymwneud â phenderfyniad a wnaed pan nad oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd gan ei fod yn datgelu gwybodaeth eithriedig.
2) cofnodion drafft y cyfarfod, ac eithrio cofnodion y trafodion pryd nad oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd,
3) copi o agenda'r cyfarfod, a

4) copi o gymaint o unrhyw adroddiad ar gyfer y cyfarfod ag sy'n ymwneud ag unrhyw eitem yn ystod yr adeg pryd roedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.

## 12.0 Hyfforddiant, cefnogaeth a chymorth technegol

12.1 Caiff cynghorwyr gynnig hyfforddiant ar ddefnyddio meddalwedd fideo-gynadledda a/neu sut i ymuno â chyfarfodydd drwy ddeialu i mewn. Bydd swyddogion yn sicrhau bod cynghorwyr

- yn gallu mewngofnodi i gyfarfod ar-lein neu ddefnyddio'r cyfleuster deialu i mewn dros y ffôn
- yn gallu defnyddio'r botymau mud/anfud, sgwrsio a chodi/gostwng llaw
- yn ystyried y cefndir a fydd i'w weld pan fydd yn y cyfarfod

12.2 Bydd swyddogion hefyd yn cynnig cefnogaeth i aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno ymuno â chyfarfod o bell neu dros y ffôn.

12.3 Pan fo cyfarfod wedi dechrau, nid oes llawer o amser ar gael yn aml i helpu i ddatrys anawsterau wrth gysylltu o bell. Am y rheswm hwnnw, bydd y sesiwn ar-lein yn dechrau 15 munud cyn y cyfarfod ei hun er mwyn caniatáu mwy o gyfle i helpu os oes angen. Os bydd problem yn digwydd yn ystod y cyfarfod, bydd swyddogion yn rhoi cymorth i ddefnyddio'r meddalwedd fideo-gynadledda neu i ddeialu i mewn. Ni fydd cymorth technegol TG ar gael yn ystod y cyfarfod.

# Rhestr o Newidiadau i Gyfansoddiad yr Awdurdod Tân

| Erthygl | Darpariaeth | Cynnig |
|---|---|---|
| **RHAN 2 ERTHYGLAU'R CYFANSODDIAD** | | |
| Erthygl 1.3 (i) | Arweiniad clir i'r gymuned….. | Dileu |
| Erthygl 4.4 | | Cynnwys rhestr lawn o faterion sydd wedi'u cadw i'r Awdurdod Llawn |
| Erthygl 5.2 (v) | Arwain wrth ddatblygu perthnasoedd gwaith da | Diwygio i "rhwng pob Cynghorydd a Chyngor sydd wedi'u cynrychioli ar yr Awdurdod" |
| Erthygl 7.5 (b) | "The MO shall record in a book…." | Dileu cyfeiriad at lyfr sy'n bodoli'n wirioneddol |
| Erthygl 9.7 (i) | Cyfeiriad at Ddeddf Diogelu Data 1998 | Diweddaru i "deddfwriaeth diogelu data" |
| **RHAN 3 CYFRIFOLDEB AM SWYDDOGAETHAU** | | |
| Rhan 3(1) a 3(2) | Mae rhestr o Bwyllgorau'r Awdurdod yn cyfeirio of Weithgor y Cynllun Gwella, ac mae diagram o'r pwyllgorau'n cyfeirio at "Gweithgor Cynllunio" | Sicrhau bod yr enw'n gyson yn y ddau le |
| Rhan 3(2) | | Ychwanegu Bwrdd Pensiwn Lleol at y diagram |
| Rhan 3(8) | | Ychwanegu adran o Gynllun Dirprwyaeth y Prif Swyddog Tân yn egluro mai rôl y PST yw gwneud penderfyniadau personél o fewn polisïau a osodir gan yr Awdurdod Llawn<br>Egluro mai pwerau'r PST yw gwneud penodiadau dros dro i swyddi ar reng Prif Swyddog Cynorthwyol ac uwch |

| | | |
|---|---|---|
| Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio Para 12 | Cworwm “Mae aelodau’n bresennol” | Diwygio “cymryd rhan yn y cyfarfod” |
| Cylch Gorchwyl y Bwrdd Pensiwn Lleol Para 26 | Cworwm “Rhaid i aelodau fod yn bresennol” | Diwygio i “cymryd rhan yn y cyfarfod” |
| **RHAN 4 RHEOLAU A GWEITHDREFN** | | |
| Rheol sefydlog 2(5) | “Copi wedi’i argraffu” | Dileu “wedi’i argraffu” |
| Rheol sefydlog 3(1) | Deddf Rhagofalon Tân (1971) | Dileu’r cyfeiriad |
| Rheol sefydlog 4(1) | “Rhaid i’r holl gyfarfodydd blynyddol a chyffredin gael eu cynnal yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy….” | Diwygio i ddweud mai’r Awdurdod fydd yn penderfynu ar y fformat ar gyfer cyfarfodydd yr Awdurdod |
| Rheol sefydlog 9(6) | Archwilio tir a safleoedd | Moderneiddio’r iaith a’r diwyg i’w wneud yn haws i’w ddeall |
| Rheol sefydlog 10(2) b | “darparu bod copi o’r cyfryw gwestiwn wedi cael ei gyflwyno i’r swyddog priodol…” | Diwygio i “darparu” |
| Rheol sefydlog 13(7) | “cyflwyno drwy gael ei adael gyda’r swyddog cyfrifol…” | Diwygio i “drwy gael ei ddarparu i” |
| Rheol sefydlog 15(1) | “yn bresennol” | Diwygio i “cymryd rhan yn y cyfarfod” |
| Rheol sefydlog 16(1) | “hawl i dderbyn papurau’r Pwyllgor….” | Diwygio i “bob person sydd â hawl i’w derbyn” |

| | | |
|---|---|---|
| Rheol sefydlog 16(2) | | Ychwanegu gofyniad i gynnwys manylion ynglŷn â sut i fynychu cyfarfod ar sail a yw'n un rhithiol neu hybrid/corfforol |
| Rheol sefydlog 17 (1) | "Cofnodion cyfarfod" | Ychwanegu "a chofnod o'r penderfyniadau"<br><br>Ychwanegu<br>"f. Y papurau cefndirol ar gyfer unrhyw adroddiad yn ystod rhannau o'r cyfarfod a oedd yn agored i'r cyhoedd"<br>"f1. Bydd copïau o ddogfennau ar gael ar gais yn dilyn talu ffi rhesymol" |
| Rheol sefydlog 17(2A) | "Mewn perthynas â chyfarfod blynyddol yr Awdurdod, cyfarfod blynyddol nesaf yr Awdurdod fydd y cyfarfod addas newydd at ddibenion paragraff (1)" h.y. ar gyfer cymeradwyo'r cofnodion. | Dileu, fel bod cofnodion y Cyfarfod Blynyddol yn cael eu hystyried yn y cyfarfod nesaf o'r Awdurdod Llawn yn hytrach nag yn y Cyfarfod Blynyddol nesaf |
| Rheol sefydlog 19(4) | "caiff y person sy'n llywyddu fynnu ei fod yn cael ei roi yn ysgrifenedig ac yn cael ei roi iddo/iddi" | Diwygio ""roi yn ysgrifenedig, neu ei ddatgan yn glir gan y clerc" |
| Rheol sefydlog 21(1)b | "shall leave" | Ychwanegu "neu gael ei eithrio" |
| Rheol sefydlog 21 (2) | ..."the person presiding shall order him/her to leave the room where the meeting is being held" | Dileu "yr ystafell lle mae'r cyfarfod yn cael ei gynnal" |
| Rheol sefydlog 21(3) | "general disturbance in any part of room where any meeting is being held" | Dileu "mewn unrhyw ran o ystafell lle" a rhoi "yn ystod" yn ei le |
| Rheol sefydlog 21(3) | "the person presiding shall order that part to be cleared and my adjourn" | Dileu "shall order that part to be cleared and" |

| | | |
|---|---|---|
| Rheol sefydlog 22(1) | Except as provided in this Standing order the method of voting ….”shall be by show of hands” | Disodli gyda “shall be determined by the person presiding” |
| Rheol sefydlog 23` | “every member attending a meeting shall sign his/her name….” | Dileu’n llwyr |
| Rheol sefydlog 24(1) | “Any such declaration shall be recorded in the minutes of the meeting” | Ychwanegu “record of decision and the “ |
| Rheol sefydlog 24(2) | “the member shall withdraw from the room in which the meeting is being held” | Disodli gyda “tynnu o’r cyfarfod” |
| Rheol sefydlog 24(3) | “shall withdraw from the room in which the meeting is being held” | Disodli gyda “tynnu o’r cyfarfod” |
| Rheol sefydlog 25(3) | “The proper officer shall record, in a book to be kept for the purpose,…” | Dileu “mewn llyfr i’w gadw at y diben,…” |
| Rheol sefydlog 25(3) | “The book shall, during ordinary office hours of the Authority, be open to inspection” | Disodli “y llyfr” a rhoi “y cofnod” yn ei le |
| Rheolau Gweithdrefn Mynediad at Wybodaeth Hawliau i Fynychu Cyfarfodydd | “caiff y cyhoedd fynychu’r holl gyfarfodydd” | Disodli gyda “caiff aelodau o’r cyhoedd weld unrhyw ran o’r cyfarfod sy’n agored i’r cyhoedd, yn ddibynnol yn unig ar yr eithriadau i’r rheolau hyn. Caiff gweld ddigwydd ar ffurf presenoldeb corfforol mewn cyfarfod sy’n cael ei gynnal yn llwyr neu’n rhannol yn bersonol, neu caiff ddigwyddd rwy weld unrhyw weddarllediad neu recordiad o’r rhannau o gyfarfod sy’n agored i’r cyhoedd” |

| | | |
|---|---|---|
| Rheolau Gweithdrefn Mynediad at Wybodaeth Mynediad at Gofnodion ar ôl Cyfarfod | Teitl | Newid i "Mynediad at Adroddiadau, Cofnodion ayyb ar ôl y cyfarfod" |
| | "The Authority will make available copies of the following for 6 years after a meeting " | Ychwanegu "ar ei wefan" |
| Rheolau Gweithdrefn Mynediad at Wybodaeth Mynediad at yr Agenda a'r Adroddiadau cyn y Cyfarfod | "Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod copïau o'r agenda a'r adroddiadau ar agor i'r cyhoedd ac ar gael ar wefan yr Awdurdod…" | Disodli gyda "Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod copïau o unrhyw agenda, adroddiad a phapurau cefndirol sydd i gael eu hystyried yn gyhoeddus ar gael yn ei swyddfeydd ac ar ei wefan…." |

*This document is available in English*

**Eitem ar yr Agenda 14**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **20 Rhagfyr 2021** |
| Swyddog Arweiniol | **Clerc** |
| Swyddog Cyswllt | **Gareth Owens (01745 535286)** |
| Pwnc | **Dyddiadau Cyfarfodydd 2022** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

**1** Hysbysu aelodau o ddyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub, Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2022.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Hysbysu aelodau o ddyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub, Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2022 fel a ddangosir ym mharagraffau 7-11 o'r adroddiad hwn.

**ARGYMHELLIAD**

3 Argymhellir bod aelodau'n cytuno dyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub, Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

**CEFNDIR**

4 Cytunwyd ar ddyddiadau ar gyfer yr holl gyfarfodydd hyd Mawrth 2022 ym mis Tachwedd 2020. Yn yr adroddiad hwn nodir dyddiadau awgrymedig ar gyfer cyfarfodydd o fis Mehefin 2022 ymlaen.

**GWYBODAETH**

**Yr Awdurdod Tân ac Achub**

5 Mae Rheol Sefydlog 4(2) o Reolau Sefydlog yr Awdurdod yn nodi

'cynhelir cyfarfodydd o'r Awdurdod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn, gyda'r cyfarfod blynyddol i'w gynnal cyn ddiwedd Mehefin fan bellaf. Bydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal yn unol ag amserlen o gyfarfodydd a gyhoeddir gan yr Awdurdod oni bai fod y Cadeirydd, mewn ymgynghoriad â'r Clerc a'r Prif Swyddog Tân, yn pennu'n wahanol.

6 O ran lleoliad ac o ystyried y wybodaeth gyfredol am Covid, bydd cyfarfodydd yn parhau i gael eu cynnal yn rhithiol a caiff hyn ei adolygu yn rheolaidd.

7 Dyma'r dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd yr Awdurdod:

Dydd Llun 14 Mawrth 2022
Dydd Llun 20 Mehefin 2022 (cyfarfod blynyddol)
Dydd Llun 17 Hydref 2022
Dydd Llun 16 Ionawr 2023
Dydd Llun 17 Ebrill 2021

### Cyfarfodydd y Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio

8 Fel rhan o brawf, o fis Gorffennaf 2022 ymlaen, cynhelir cyfarfodydd y Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio ar yr un diwrnod. Bydd y Pwyllgor Archwilio yn cael ei gynnal yn y bore a'r cyfarfod Panel Gweithredol yn y prynhawn. Dyma'r dyddiadau:

Dydd Llun 24 Ionawr 2022 – **Pwyllgor Archwilio, 9.30am**
Dydd Llun 14 Chwefror 2022 – **Panel Gweithredol, 9.30am**

O fis Gorffennaf 2022 ymlaen, bydd y Pwyllgor Archwilio am 9.30am a'r Panel Gweithredol am 2.00pm ar yr un diwrnod.

Dydd Gwener 29 Gorffennaf 2022
Dydd Llun 19 Medi 2022
Dydd Llun 12 Rhagfyr 2022
Dydd Llun 20 Mawrth 2023

### GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ddim yn berthnasol |
| Cyllideb | Ddim yn berthnasol |
| Cyfreithiol | Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn unol â Rheolau Sefydlog ATAGC a'r cylch gorchwyl perthnasol.<br>Mae disgwyl i aelodau ddilyn y cod ymddygiad bob amser |
| Staffio | Ddim yn berthnasol |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg/ | Mae holl gyfarfodydd yr Awdurdod Tân yn cydymffurfio â chydraddoldeb |
| Risgiau | Ddim yn berthnasol |